

Polisi Dyrannu Tai Cyngor Sir Bro Morgannwg

Dyma'r Polisi Dyrannu Cyffredin a weithredir gan Gyngor Sir Bro Morgannwg a'r Cymdeithasau Tai Cofrestredig sy'n berchen ar stoc tai yn y Fwrdeistref Sirol

Cynnwys	Tudalen
Adran 1: Cyflwyniad a Chefndir	3
Adran 2: Pwy all wneud cais i ymuno â'r Gofrestr Tai	10
Adran 3: Sut mae gwneud cais i ymuno â'r Gofrestr Tai	12
Adran 4: Datganiad y Cyngor ar Ddewis	17
Adran 5: Sut caiff anghenion tai ymgeisydd eu hasesu	19
Adran 6: Tabl Crynhoi Bandio	20
Adran 7: Cynnig llety a'r broses adolygu	31
Atodiad 1: Meini prawf asesu a blaenoriaeth bandio	38
Atodiad 2: Cymhwysedd er mwyn cofrestru	50
Atodiad 3: Polisi gosod lleol a'r modd y caiff ei weithredu	56
Atodiad 4: Y Polisi Eithrio	58
Atodiad 5: Y panel asesu ac eithrio gosod Tai	63
Atodiad 6: Sut mae cynnig a sut y caiff ei ystyried	65

Cyd-destun Cyfreithiol

Mae'r polisi hwn yn nodi pwy sy'n gymwys a phwy sydd ddim yn gymwys i dderbyn tŷ cymdeithasol ym Mro Morgannwg a sut y bydd y Cyngor yn gwneud yr asesiad hwn. Mae'n trafod sut y gall ymgeiswyr wneud cais am dai cymdeithasol a chael mynediad atynt; y flaenoriaeth a roddir iddynt a'r drefn y bydd unrhyw gynnydd o dŷ cymdeithasol yn cael ei wneud ynddi.

Datblygwyd y polisi hwn yn unol â Rhan 6 Deddf Tai 1996; y Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol: Dyrannu Llety a Digartrefedd (Llywodraeth Cymru, 2015 a'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2011).

Mae'r Polisi yn bodloni'r holl ofynion diogelu data a bydd yn cael ei fonitro yn ofalus. Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i sicrhau nad yw ei bolisi a'i weithdrefnau o ran gosod tai yn gwahaniaethu ac y gall pob cwsmer gael mynediad at y gwasanaeth, gan roi ystyriaeth benodol i unrhyw nodwedd sy'n gwneud rhywun yn agored i niwed neu anghenion penodol eraill, ond hefyd i anghenion gwahanol grwpiau a ddiogelir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

'Cynllun Homes4U Bro Morgannwg' yw enw'r Cynllun Dyrannu ac mae'n gynllun gosod sy'n seiliedig ar ddewis lle gall ymgeiswyr wneud cais am gartrefi gwag a hysbysebair.

Mae'r canlynol yn aelodau o bartneriaeth 'Homes4U':

1. Cyngor Sir Bro Morgannwg
2. Cymdeithas Tai Newydd
3. Cymdeithas Tai Wales & West
4. Cymdeithas Tai Hafod
5. Cymdeithas Tai United Welsh

Mae pob un o'r Cymdeithasau Tai hyn wedi cytuno'n wirfoddol i gyd-fynd â'r polisi cyffredin hwn er mwyn sicrhau y darperir un llwybr mynediad i'r holl ymgeiswyr sy'n gwneud cais am dŷ cymdeithasol yn y Fwrdeistref Sirol a'u bod yn cael eu hasesu gan ddefnyddio un polisi.

Mae'r Cymdeithasau Tai sy'n cymryd rhan wedi cytuno i hysbysebu eu holl gartrefi gwag trwy gynllun Homes4U ac yn unol â'r polisi hwn. Mae'r polisi yn cynnwys dyrannu stoc tai gwag y Cyngor ac enwebu unrhyw ymgeisydd o dan y cynllun i fod yn denant Sicr neu Fyrddaliol Sicr llety tai a ddelir gan Gymdeithas Tai sy'n cymryd rhan.

Mae'r Cyngor wedi dilyn ac ystyried yn llawn y ddeddfwriaeth a chanllawiau tai canlynol wrth ddatblygu'r polisi hwn:

Mae'r cynllun dyrannu hwn wedi'i gynllunio i sicrhau y rhoddir ffafriaeth resymol i'r holl categorïau canlynol o bobl, fel y nodir yn a.167(2ZA), Deddf Tai 1996:

(i) Pobl sy'n ddigartref (yn unol ag ystyr Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014);

(ii) Pobl y mae ar yr awdurdod lleol ddyletswydd iddynt o dan adrannau 66, 73 neu 75 Deddf Tai (Cymru) 2014;

(iii) Pobl sy'n byw mewn tai afiach neu orlawn neu fel arall sy'n byw mewn amodau tai anfodhaol o fath arall;

(iv) Pobl sydd angen symud am resymau meddygol neu les, gan gynnwys rhesymau yn ymwneud ag anabledd.

(v) Pobl sydd angen symud i ardal leol benodol yn rhanbarth y Cyngor, pan fyddai methu â diwallu'r angen hwnnw yn achosi caledi (i'w hunain neu i eraill).

Mae'r Cyngor hefyd wedi cydnabod 2 grŵp a ffefrir fel blaenoriaeth, sef;

(vi) Aelodau'r lluoedd arfog a'u teuluoedd, sy'n gwasanaethu yn y lluoedd rheolaidd a fydd yn cael eu rhyddhau o fewn 3 mis, neu sydd wedi gwasanaethu yn ystod y 5 mlynedd cyn eu cais am ddyraniad llety tai ac nad oes ganddynt fynediad at eu tŷ eu hunain. Yn cynnwys gwagedd/gwŷr gweddw personél a laddwyd wrth wasanaethu. Hefyd i gael eu cynnwys yw lluoedd arfog wrth gefn a'u teuluoedd sydd wedi profi gwasanaeth gweithredol yn y 5 mlynedd dwethaf yn cynnwys gwraig weddw / gwŷr gweddw personél sydd wedi cael eu lladd mewn gwasanaeth ac unrhyw fynediad at eu tŷ eu hunain.

(vii) Byddai hyn yn cynnwys gofalwyr maeth, y rheini sydd wedi eu cymeradwyo i fabwysiadu, neu'r rheini sy'n cael eu hasesu ar gyfer cymeradwyaeth i faethu neu fabwysiadu, sydd angen symud i gartref mwy er mwyn rhoi llety i blentyn sy'n derbyn gofal neu blentyn a oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol cynt. Byddai hefyd yn cynnwys gwarcheidwaid arbennig, deiliaid gorchymyn preswylid a gofalwyr sy'n deulu a ffrindiau nad ydynt yn ofalwyr maeth ond sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am ofal plentyn gan nad yw'r rhieni yn gallu darparu gofal.

Nodir y meini prawf manwl y byddwn yn eu defnyddio i asesu pa un a ddylid dyfarnu un o'r 5 categori ffafriaeth resymol neu'r 2 categori ffafriaeth leol i ymgeisydd yn atodiad 1.

Bydd cyngor am opsiynau tai eraill i bobl sy'n annhebygol o gael cynnig llety drwy'r cynllun. Bydd gwybodaeth ar wefan Homes4U ac ar gael fel deunydd ysgrifenedig yn trafod opsiynau fel; cydgyfnewid, y sector rhentu preifat, perchentyaeth cost isel ac argaeledd cartrefi cydberchnogaeth.

Mae'r Cyngor yn cydnabod efallai na fydd rhai cwsmeriaid sy'n gwneud cais i'r cynllun yn gymwys o dan y rheolau cymhwyso oherwydd ymddygiad annerbyniol, fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu ôl-ddyledion rhent sylweddol. Fodd bynnag, nod y Polisi yw bod mor agored a thryloyw â phosibl a bydd y Cyngor y ceisio cofrestru pobl pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl,

ond ni fydd ymgeiswyr yn cael eu hystyried am gynnig o dŷ cymdeithasol ar ôl eu cofrestru tan y byddant wedi datrys y materion sy'n peri pryder er boddhad y Cyngor. Nodir sut y disgwylir i bobl ddatrys y pryderon yn adrannau perthnasol y polisi hwn ar ymddygiad annerbyniol ac ôl-ddyledion rhent nad ydynt wedi cael sylw.

Er bod gan y Cyngor hawliau enwebu i ganran o gartrefi gwag a ddelir gan y Darparwyr Cymdeithasau Tai Cofrestredig, mae pob cymdeithas wedi cytuno i ymuno â'r *'Bartneriaeth Homes4U'* a dyrannu llety trwy un gofrestr tai ac yn unol â chyfres o reolau a gytunwyd.

Yn rhan o'r cynllun, bydd y Cyngor a Phartneriaid Cymdeithasau Tai yn cytuno ar *Bolisi Eithriadau* fel bod meini prawf a gytunwyd cyn belled â phosibl hefyd, a phroses ar gyfer dyrannu llety pan fo angen rhoi ystyriaeth bellach i amgylchiadau ymgeisydd o ran a ellid eu heithrio o gael eu hystyried am gynnig o dŷ cymdeithasol tan y bydd wedi rhoi sylw i unrhyw bryderon er boddhad y Cyngor a/neu Bartner Cymdeithas Tai.

Hysbysebu'r polisi

Byddwn yn darparu copi o'r polisi am ddim i unrhyw unigolyn sy'n gofyn am un yn ogystal â'i wneud ar gael ar-lein. Mae cyngor ar y ffordd y mae'r polisi hwn yn gweithio ar gael drwy'r tîm opsiynau a chyngor tai. Bydd y Polisi ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi'r Polisi Dyrannu hwn yn ffurfiol ar ei wefan. Bydd y polisi cyhoeddedig sydd ar gael ar y wefan yn cynnwys 1) Y Polisi Eithriadau a gytunwyd a 2) Unrhyw reolau neu feini prawf unigol a allai gael eu cymhwysu gan bartner cymdeithas tai Homes4U unigol sydd y tu allan i'r rheolau a bennir gan y Polisi Cyffredin hwn neu a nodir yn y Polisi Eithriadau.

Aelodau'r Cyngor, staff a'u perthnasau

Ni all Cynghorwyr etholedig gymryd rhan yn y gwaith o asesu ceisiadau am dai na dyrannu tai. Fodd bynnag, nid yw hyn yn eu hatal rhag ceisio neu ddarparu gwybodaeth ar ran eu hetholwyr.

Y brif swyddogaeth, fel yr amlinellir mewn canllawiau statudol, yw datblygu a chymeradwyo polisi yn y dyfodol a dwyn swyddogion yr awdurdod i gyfrif am eu gweithredoedd.

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn trin pob ymgeisydd yn deg, mae'n rhaid datgelu unrhyw gais am dŷ gan Gynghorwyr neu gyflogeion y Cyngor neu Gymdeithas Tai partner. Ni chaniateir canfasio. Bydd y ceisiadau hyn yn cael eu hasesu yn y ffordd arferol, ond mae'n rhaid i unrhyw ddyraniad o dai gael ei gymeradwyo gan yr Uwch Swyddog yng Nghyngor Bro Morgannwg sy'n gyfrifol am weinyddu'r cynllun.

Newid y polisi

Ni ellir diwygio'r polisi tan y bydd copi o'r diwygiadau arfaethedig wedi cael ei anfon i bob cymdeithas tai yn y Sir. Mae'n rhaid rhoi cyfle rhesymol iddynt wneud sylwadau ar y cynigion.

Bydd pob newid mawr yn cael ei gymeradwyo gan gyfarfod o'r Cyngor Llawn, bydd pob newid mân yn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet, bydd pob newid i weithdrefnau gweithredol yn cael ei gymeradwyo gan y swyddog sy'n gyfrifol am Wasanaethau Tai neu ei swyddog dirprwyedig. *Bydd pob newid mawr a/neu fân* yn destun ymgynghoriad â'r holl Ddarparwyr Tai Cymdeithasol Cofrestredig yn y Fwrdeistref Sirol, pa un a yw darparwr yn aelod o gynllun Homes4U nawr neu yn y dyfodol ai peidio.

Bydd angen i gyrff gwneud penderfyniadau perthnasol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, sef eu Byrddau, ystyried a chymeradwyo unrhyw newidiadau mawr y mae'r Cyngor neu aelod o'r Bartneriaeth yn dymuno eu gweld hefyd. Ar gyfer newidiadau llai, gellir dirprwyo hyn i Brif Weithredwr cymdeithas tai partner yn dibynnu ar y rheolau llywodraethu sy'n weithredol ar gyfer y gymdeithas honno.

Bydd y Cyngor yn hysbysu yn ysgrifenedig, ac o fewn cyfnod rhesymol, am unrhyw newidiadau mawr i'r rhai a allai gael eu heffeithio. Bydd angen proses ymgynghori lawn a manwl ar unrhyw newidiadau mawr ar gyfer y rheini a allai gael eu heffeithio gan y newidiadau. Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth lawn i Ran 6 Deddf Tai 1996 ac adrannau perthnasol Cod Canllawiau 2015 yn ymwneud â diwygio Polisi Dyrannu wrth benderfynu ar y lefel a'r dull ymgynghori priodol ar gyfer unrhyw newidiadau.

Rhannu gwybodaeth, cyfrinachedd a diogelu data

Bydd gwybodaeth a dderbynnir yn ymwneud â chais cwsmer yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Ni fydd gwybodaeth gyfrinachol a ddelir am gwsmeriaid yn cael ei datgelu i drydydd partïon, ac eithrio:

- Pan fydd yr unigolyn wedi rhoi caniatâd i'w datgelu
- Pan fo'n ofynnol o dan y gyfraith i'r Cyngor wneud datgeliad o'r fath.
- Pan fo datgeliad yn cael ei wneud yn unol â Phrotocol Rhannu Gwybodaeth cydnabyddedig neu am resymau diogelu'r cyhoedd.

Diogelu Data a rhannu gwybodaeth

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw wybodaeth a ddarperir iddo gan ymgeiswyr, a chan drydydd partïon yn ymwneud â chais, yn cael ei drin yn gwbl gyfrinachol. Trwy wneud hynny, bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Deddf Diogelu Data 1998, o ran y ffordd y mae'n storio ac yn prosesu'r wybodaeth sydd ganddo am ymgeiswyr, a chydag a.166(4) Deddf Tai 1996. Caiff yr ymgymeriad hwn ei ymestyn hefyd i'r holl landlordiaid sydd wedi cytuno i gyd-fynd â'r polisi hwn.

Bydd y Cyngor yn gofyn am gydsyniad datganedig ymgeiswyr sy'n ymuno â chynllun HOMES4U i rannu gwybodaeth bersonol am yr ymgeisydd, ac unrhyw aelod o'r aelwyd.

Gallai gwybodaeth gael ei rhannu am yr unigolyn a'i hanes pa un a dderbyniwyd ei gydsyniad ai peidio o dan amgylchiadau eithriadol, a fydd yn cynnwys:

- a) Yn unol â darpariaethau Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (Adran 115).
- b) At ddibenion atal neu ganfod trosedd a thwyll.
- c) Pan fo bygythiad difrifol i'r ymgeisydd neu drydydd parti gan gynnwys staff neu gontractwyr.
- ch) Pan fo gwybodaeth yn berthnasol i ddyletswyddau rheoli neu gynorthwyo'r landlord arfaethedig neu unrhyw sefydliad cymorth enwebedig, i sicrhau iechyd a diogelwch yr ymgeisydd, aelod o'i aelwyd, neu aelod o staff.

Mae'r awdurdod lleol a Phartneriaid Cymdeithasau Tai wedi cytuno i gyd-fynd â phrotocol, sy'n llywodraethu'r ffordd y rhennir gwybodaeth at y diben o gynnal y gofrestr dai gyffredin. Datblygwyd y protocol rhannu gwybodaeth yn unol â'r fframwaith a luniwyd gan Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru. Mae'r protocol yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng sefydliadau yn ddiogel. Bydd hwn, a phrotocolau eraill pan fo hynny'n berthnasol, yn cael eu defnyddio gan y Cyngor i ddilysu unrhyw agwedd ar y cais i sicrhau ei fod yn bodloni'r holl ofynion statudol.

Yn rhan o'r broses ymgeisio, bydd yn ofynnol i ymgeiswyr roi caniatâd i'w gwybodaeth bersonol gael ei rhannu at y diben o gael cartref newydd. Bydd y Cyngor yn ystyried nad yw'r ymgeiswyr hynny sy'n amharod i roi caniatâd i'w gwybodaeth gael ei rhannu wedi cwblhau eu cais ac, o'r herwydd, oni bai fod rheswm eithriadol am beidio â chydsynio y mae'r Cyngor yn cytuno ei fod yn eithriadol, ni fyddant yn cael eu derbyn ar y gofrestr dai gyffredin.

Hawl i wybodaeth

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn ei gwneud yn ofyniad i bob awdurdod cyhoeddus lunio Cynllun Cyhoeddi sy'n nodi'r holl wybodaeth y mae'n ei gwneud ar gael i'r cyhoedd, a pha un a oes copïau o'r wybodaeth honno ar gael am ddim. Mae'r Cynllun Cyhoeddi yn cynnwys gwybodaeth y mae'r Cyngor wedi ei rwymo i'w chyhoeddi o dan y gyfraith. Bwriedir hefyd i'r Cynllun gynorthwyo i ddatblygu diwylliant lle mae bod yn agored a thryloyw yn cael ei annog, sy'n cefnogi gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2000. Nid yw'r ddyletswydd hon yn berthnasol i ddarparwyr tai cymdeithasol cofrestredig.

Cydraddoldeb, hygyrchedd a monitro

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i sicrhau nad yw ei bolisi a'i weithdrefnau o ran gosod tai yn gwahaniaethu ac y gall pob cwsmer gael mynediad at y gwasanaeth, gan roi ystyriaeth benodol i unrhyw nodwedd sy'n gwneud rhywun yn agored i niwed neu anghenion penodol eraill, a hefyd i anghenion gwahanol grwpiau a ddiogelir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Er mwyn nodi anghenion ein cwsmeriaid, bydd y ffurflen gais yn cynnwys cwestiynau penodol yn ymwneud â bod yn agored i niwed, tarddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, anableddau a meini prawf perthnasol eraill. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i fonitro effaith y polisi ar grwpiau lleiafrifoedd ac anghenion penodol ac i wneud diwygiadau, fel gallai fod yn ofynnol, i sicrhau nad oes unrhyw grŵp yn cael ei roi o dan anfantais gan y polisi.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac adran 149 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn benodol, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol roi ystyriaeth briodol i gael gwared ar wahaniaethu, hybu cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt, wrth arfer swyddogaeth gyhoeddus.

Dyma'r nodweddion gwarchoddedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod ei bolisi yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gydraddoldeb bresennol a chyda'r codau a chanllawiau statudol perthnasol. Bydd y polisi newydd yn destun Archwiliad Cydraddoldeb cyn iddo gael ei fabwysiadu a bydd hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod y system mor hygyrch â phosibl i unrhyw ymgeisydd a bydd cwsmeriaid yn cael cymorth i wneud cais pryd bynnag y bydd ei angen arnynt neu y byddant yn gofyn amdano.

Bydd y canlyniadau ar gyfer cwsmeriaid y nodwyd bod ganddynt anghenion penodol neu sy'n cyd-fynd â'r diffiniad o nodwedd warchoddedig o ran y Ddeddf Cydraddoldeb yn cael eu monitro o ran y canlyniadau am geisiadau i ymuno â'r gofrestr a chynigion o dai cymdeithasol.

Bydd y Cyngor yn monitro'r polisi a chanlyniadau i sicrhau ei fod yn bodloni'r holl ofynion cyfreithiol a bod y nodau a'r amcanion a bennwyd ar gyfer y polisi yn cael eu bodloni. Bydd monitro yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod:

- Y rhoddir blaenoriaeth ar gyfer tai i'r rheini sydd yn y categorïau 'ffafriaeth resymol'
- Y Cyngor yn cydymffurfio a'i ddyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb
- Bodlonrwydd cyffredinol â'r cynllun ymhlith cwsmeriaid

Cwynion

Dylid gwneud cwynion yn gyntaf gan ddefnyddio gweithdrefn gwynion y Cyngor. Mae copi o'r weithdrefn bresennol ar gael ar wefan y Cyngor.

Mae gan gwsmer yr hawl i barhau â'i gŵyn i wasanaeth Ombwdsmon Tai Cymru o hyd.

Gwasanaeth annibynnol yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, sy'n cael ei redeg gan Lywodraeth Cymru i wneud yn siŵr bod Awdurdodau Lleol yn darparu'r safon ofynnol o wasanaeth i'w cwsmeriaid.

Gall yr Ombwdsmon ymchwilio i gwynion ynghylch sut y mae'r Cyngor wedi gwneud rhywbeth, ond ni all gwestiynu'r hyn a wnaed dim ond gan nad yw rhywun yn cytuno ag ef.

Bydd yr Ombwdsmon yn ymdrin â chwyn fel rheol os bydd cwsmer yn teimlo ei fod wedi cael ei drin yn annheg o ganlyniad i gamweinyddu.

Er enghraifft, os yw'r Cyngor wedi:

- Oedi cyn gweithredu heb reswm da
- Cymryd ffeithiau nad ydynt berthnasol i ystyriaeth neu anwybyddu ffeithiau sy'n berthnasol
- Heb ddilyn ei reolau ei hun neu gydymffurfio â'r gyfraith
- Heb gymryd camau yr oedd wedi addo eu cymryd
- Rhoi'r wybodaeth anghywir i gwsmer
- Heb wneud penderfyniad yn y ffordd gywir

Ni fydd yr Ombwdsmon fel rheol yn archwilio:

- ✓ Tan ar ôl i'r Cyngor gael cyfle i adolygu ei benderfyniad (trwy fynd drwy'r broses gwynion fel rheol)
- ✓ Materion yr ymdriniwyd â hwy, sy'n cael eu hymdrin, wedi cael eu hymdrin gan y llysoedd neu'r weithdrefn adolygu fewnol
- ✓ Materion yr oedd y cwsmer yn ymwybodol ohonynt fwy na blwyddyn cyn gwneud y cwyn
- ✓ Nod yr Ombwdsmon yw i'r Cyngor gywiro unrhyw anghyfiawnder y gallai'r achwynydd fod wedi ei ddioddef a sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud yn iawn yn y dyfodol.

Mae'n rhaid i bob cwyn i'r Ombwdsmon fod yn ysgrifenedig. Gall ymgeiswyr ofyn am gymorth gan eu Cynghorydd lleol neu gael eiriolwr arall i ysgrifennu ar eu rhan. Dyma fanylion cyswllt yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae 60

Pencoed CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203 Ffacs: (01656) 641199

Ebost: ask@ombudsman-wales.org.uk

Adran 2 Pwy all wneud cais i'r Gofrestr Dai a'r meini prawf ar gyfer asesu cymhwysedd

Gall unrhyw un dros 16 oed wneud cais i ymuno â'r gofrestr. Fodd bynnag, os bydd yr ymgeisydd yn iau nag 18 mlwydd oed, bydd angen asesu ei allu i reoli tenantiaeth. Mae hyn i wneud yn siŵr y gall ymdopi â bod yn denant ar oedran ifanc ac nad yw'n colli unrhyw denantiaeth a gynigir trwy ddiffyg cefnogaeth. Gallai hyn gynnwys cyfeiriad at y Gwasanaethau Cymdeithasol neu wasanaethau cymorth eraill i sicrhau bod y cymorth priodol ar waith. Os bydd unigolyn yn 16 oed ac os rhoddir tenantiaeth iddo, bydd hwn yn cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth tan y byddant yn 18 oed. Mae hyn yn golygu y bydd unigolyn priodol arall (fel rhiant, gwarcheidwad cyfreithiol, gweithiwr cymdeithasol neu berthynas) yn gyfrifol am y cartref.

Gall pawb wneud cais i ymuno â'r gofrestr ond ceir rhai grwpiau o bobl na allant ymuno â'r gofrestr o dan y gyfraith waeth beth fo'u hangen am dŷ neu eu hamgylchiadau. Mae'r rhain yn bobl:

- Sy'n dod o dan wahanol reolau mewnfudo ac na allant hawlio cymorth tai;
- Nad ydynt yn byw'n barhaol yn yr Ardal Deithio Gyffredin (y DU, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu Weriniaeth Iwerddon) at ddibenion treth;
- Nad yw'r hawl ganddynt i fyw yn y DU;
- A chategoriâu eraill o bobl y mae'r Ysgrifennydd Gwladol neu Lywodraeth Cymru wedi penderfynu nad ydynt yn gymwys i dderbyn tŷ, neu y byddant yn penderfynu hynny amdanynt yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod efallai na fydd rhai cwsmeriaid sy'n gwneud cais i'r cynllun yn gymwys o dan y rheolau cymhwyso oherwydd ymddygiad annerbyniol, fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu ôl-ddyledion rhent sylweddol. Fodd bynnag, nod y Polisi yw bod mor agored a thryloyw â phosibl a bydd y Cyngor yn ceisio cofrestru pobl pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl. Ond ar ôl iddynt gael eu cofrestru, ni fydd ymgeiswyr yn cael eu hystyried ar gyfer cynnig o dŷ cymdeithasol tan y byddant wedi datrys y materion sy'n peri pryder er boddhad y Cyngor. Nodir sut y mae disgwyl i bobl ddatrys y pryderon yn adrannau perthnasol y polisi hwn ar ymddygiad annerbyniol ac ôl-ddyledion rhent sylweddol.

Mae Atodiad 2 y Polisi hwn yn nodi'r rheolau y bydd y Cyngor yn eu dilyn i benderfynu a yw unigolyn yn gymwys i ymuno â'r gofrestr oherwydd 1) Rheolau Llywodraeth Cymru ar gyfer dyrannu llety tai i unigolion o dramor neu unigolyn sy'n destun rheolaeth mewnfudo, neu 2) Y rheolau a fabwysiadwyd i ymuno â'r gofrestr, neu i dderbyn cynnig o lety, lle ceir ymddygiad annerbyniol.

Os ydych mewn tenantiaeth gyflwyniadol, byddwch yn gallu cofrestru ond ni fyddwch yn cael eich ystyried ar gyfer cynnig o dŷ cymdeithasol oni bai fod amgylchiadau eithriadol, gan y byddai ystyriaeth eich bod mewn llety priodol.

Ymgeiswyr ar y Cyd:

Bydd ceisiadau ar y cyd yn cael eu derbyn a'u trin fel un cais. Bydd angen yr aelwyd lawn am dŷ yn cael ei ystyried wrth asesu'r angen am dŷ. Fodd bynnag, o fan y Cymdeithasau Tai sy'n rhan o'r polisi hwn, y gymdeithas unigol fydd yn penderfynu pa un a ddylid caniatáu cyd-denantiaeth yn dibynnu ar eu rheolau eu hunain. Yr eithriad i'r rheol fyddai i denantiaid sy'n byw mewn llety a rennir lle gellir dyfarnu cyd-denantiaethau ond yr ystyrir y tenantiaid fel unigolion.

Aelwydydd â mynediad at blant/gorchymyn cyd-breswyllo

Yn rhan o'r broses asesu, bydd y Cyngor yn cofnodi a oedd gan yr ymgeisydd blant sy'n byw gydag ef yn ystod rhan o'r wythnos pa un a yw'r trefniant hwn wedi ei bennu gan y llys ai peidio. Bydd ymgeisydd yn cael ei hysbysu am faint y cartref y mae'n debygol y bydd gan yr ymgeisydd fynediad ato yn dibynnu ar y rheolau a ddilynir gan bob Cymdeithas Dai ar gyfer dyrannu llety i aelwydydd lle nad yw plant yn byw gydag ymgeisydd yn unig. Bydd penderfyniad Cymdeithas Dai yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys:

- Gallu'r ymgeisydd i fforddio'r rhent gyda neu heb gymorth budd-daliadau
- Argaeledd a phoblogrwydd tai teuluol mewn unrhyw ardal y mae ymgeisydd yn mynegi ffafriaeth i fyw ynddi.

Adran 3: Sut i wneud cais i ymuno â'r Gofrestr Dai

Sut i wneud cais

Cofrestr sengl a weithredir gan bartneriaeth HOMES4U yw'r Gofrestr Dai Gyffredin HOMES4U. Dyrennir tai cymdeithasol i bobl ar y gofrestr dai yn unig.

Er mwyn gwneud cais am lety, mae'n rhaid i ymgeiswyr gwblhau cais ar-lein sydd ar gael ar wefan Bro Morgannwg. Gall cynghorydd drafod amgylchiadau tai unigol a chynnig cyngor priodol ar holl opsiynau tai ymgeisydd. Bydd hyn yn gwbl gyfrinachol.

Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y gellir cyflwyno ffurflen gais HOMES4U yn ysgrifenedig, a dylid gwneud cais am ffurflen oherwydd amgylchiadau eithriadol yn uniongyrchol i HOMES4U;

Tîm Gweinyddu (Tai)
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holton
Y Barri
CF63 4RU
Rhif Ffon: 01446 709840
e-bost: housingcustomerliaisonteam@valeofglamorgan.gov.uk

Bydd pob ymgeisydd sydd angen cais yn derbyn pecyn sy'n cynnwys:

- Ffurflen gais â nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer ei chwblhau.
- Crynodeb o'r Polisi Dyrannu HOMES4U hwn.

Cwblhau'r ffurflen gais

Anogir ymgeiswyr i gwblhau'r ffurflen gais eu hunain. Fodd bynnag, gellir rhoi cymorth os oes angen.

Asesu Ceisiadau

Er mwyn asesu safle ymgeisydd ar y Gofrestr Dai, mae cynllun HOMES4U yn defnyddio system Fandio yn seiliedig ar anghenion, sy'n cael ei chrynhai isod a'i disgrifio'n fanwl yn Atodiad 1 y polisi hwn. Dyfernir y Bandiau i adlewyrchu'r angen am dŷ, lle mae'r anghenion a adlewyrchir yn y Band uchaf yn dynodi'r angen mwyaf am dŷ.

Bydd y cais a gyflwynir yn cael ei ddefnyddio i asesu angen unigolyn am dŷ. Bydd angen unigolyn am dŷ yn cael ei adlewyrchu trwy ddefnyddio system 'Bandio' blaenoriaeth.

Bydd y tîm tai sy'n gyfrifol am asesu ceisiadau newydd yn asesu a yw'r unigolyn yn gymwys i fod ar y Gofrestr Dai ac, os ydyw, bydd y tîm yn defnyddio'r polisi i asesu anghenion tai yr unigolyn ac yn dyfarnu unrhyw flaenoriaeth i gais yr unigolyn hwnnw os yw'n bodloni'r meini prawf a nodir.

Wrth gwblhau'r cais ar-lein, bydd yn ofynnol i'r ymgeiswyr wneud datganiad i:

- Gadarnhau bod y wybodaeth a roddwyd yn gywir ac y byddant yn hysbysu'r Cyngor am unrhyw newid i'w hamgylchiadau.
- Rhoi caniatâd i alluogi ymholiadau i gael eu gwneud ynghylch eu cymhwysedd i dderbyn tŷ a'u lefel flaenoriaeth.
- Rhoi caniatâd i alluogi gwybodaeth i gael ei darparu i sefydliad partner arall yn y cynllun.

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw darparu'r holl wybodaeth i'r Cyngor ac i ddarparu unrhyw wybodaeth neu ddogfennau ategol ar gais. Ni fydd ceisiadau anghyflawn yn cael eu gwneud yn weithredol tan fod y Cyngor yn fodlon ei fod yn meddu ar yr holl wybodaeth sydd ei hangen arno i gwblhau ei asesiad. Bydd pob cais anghyflawn yn cael ei ddiddymu ar ôl cyfnod o 28 diwrnod o anweithgarwch gan yr ymgeisydd o'r dyddiad y gofynnwyd am wybodaeth ac na chafodd ei darparu. Nid yw'r diddymiad hwn yn atal yr ymgeisydd rhag gwneud cais dilynol yn ddiweddarach, er y dylai ymgeiswyr nodi na fyddai'r dyddiad cofrestru gweithredol yn cael ei ôl-ddyddio i ddyddiad y cais cynharach.

Bydd y Cyngor yn cysylltu ag unrhyw landlord tai cymdeithasol pan fydd yr ymgeiswyr wedi gadael y cyfeiriad hwnnw yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf. Bydd y Cyngor hefyd yn cysylltu â'r landlord sector preifat os mai dyna'r cyfeiriad sefydlog diwethaf. Pan na fydd landlord yn ymateb, bydd nodyn atgoffa yn cael ei anfon ac os ni cheir ateb eto bydd unrhyw wybodaeth neu gofnodion eraill sydd ar gael yn cael eu gwirio i geisio darganfod na fu unrhyw bryderon ynghylch y ffordd yr ymgwymerodd ymgeisydd â'i denantiaeth. Ni ddylai ymgeisydd gael ei roi dan anfantais os nad yw'n bosibl cael tystlythyr gan ei landlord presennol neu flaenorol, er gwaethaf pob ymdrech, ac, os oes angen, gellir cyfeirio'r achos at y Panel Asesu Gosodiadau a Gwaharddiadau ei ystyried.

Ymchwiliadau i unrhyw achosion llys neu euogfarnau troseddol heb eu disbyddu

Er budd asesu cymhwysedd ymgeisydd i ymuno â'r gofrestr, gofynnir i'r holl ymgeiswyr ac aelodau eu darpar aelwyd ddatgelu unrhyw achosion llys sydd heb eu cynnal neu euogfarnau troseddol heb eu disbyddu, er nad yw hyn yn ofynnol.

Gall y Cyngor ddefnyddio unrhyw wybodaeth a ddatgelir, neu unrhyw wybodaeth arall a dderbynnir yn ystod yr asesiad neu ar ôl cofrestru, i ganfod a ddylid anghymhwysu'r ymgeisydd o ymuno â'r gofrestr neu aros arni oherwydd ymddygiad annerbyniol difrifol a/neu oherwydd, yn dibynnu ar y ffeithiau, y gallent beri risg ddifrifol i gymuned lle gallent dderbyn tŷ. Pan fydd euogfarn droseddol wedi ei disbyddu, ni fydd y Cyngor yn cymryd y ffaith fod ymgeisydd wedi derbyn euogfarn droseddol i ystyriaeth wrth asesu cymhwysedd yr

unigolyn hwnnw i ymuno â'r gofrestr. Bydd yr asesiad yn adlewyrchu pa un a oes tystiolaeth o unrhyw ymddygiad annerbyniol difrifol presennol, pa un a yw unigolyn wedi derbyn euogfarn yn y gorffennol am yr ymddygiad hwnnw ai peidio.

Os bydd y Cyngor yn penderfynu ar sail y wybodaeth a dderbyniwyd yn ystod y broses asesu bod angen gwirioneddol a thaer am archwiliad heddlu, gellir cysylltu ag asiantaeth Disclosure Scotland am wybodaeth, ond dim ond i ganfod a yw'r unigolyn wedi bod yn gysylltiedig â throedd(au) difrifol a allai gyd-fynd â'r meini prawf anghymhwys oherwydd ymddygiad annerbyniol.

Ni fydd gwybodaeth a dderbynnir yn eithrio ymgeisydd rhag ymuno â'r gofrestr yn awtomatig. Gellir ei defnyddio hefyd i wneud penderfyniadau cytbwys am unrhyw enwebiad ar gyfer cartref gwag.

Bydd pob asesiad yn cael ei gynnal yn unol â'r polisiau diogelu data a rhannu gwybodaeth a gofynion cyfreithiol.

Hysbysu am Gofrestrriad

Pan fydd cais wedi cael ei asesu'n llawn, bydd yr unigolyn a wnaeth y cais yn cael ei hysbysu yn ysgrifenedig a bydd yr hysbysiad hwn yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Pa un a ydynt yn gymwys ar gyfer y gofrestr ac, os nad ydynt, pam
- Os ydynt yn gymwys, byddant yn cael eu hysbysu am eu dyddiad cofrestru a rhif cyfeirnod eu cofrestrriad a'r
- Band y maent wedi eu neilltuo iddo yn ôl eu hangen am dŷ, a'r math o gartref y cânt wneud cais amdano

Y gofyniad i hysbysu'r Cyngor am unrhyw newid i amgylchiadau

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw hysbysu'r Cyngor am newid amgylchiadau a, phan ofynnir amdano, darparu prawf o'r newid. Dylid hysbysu am newid amgylchiadau heb oedi diangen ac o fewn pythefnos i'r newid. Mae enghreifftiau o newid i amgylchiadau yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i:

(i) Newid cyfeiriad neu fanylion cyswllt, i'w hunain neu aelodau o'u darpar aelwyd;

(ii) Newid i'w cyflwr meddygol neu anabledd (naill ai presennol neu newydd);

(iii) Aelodau teulu ychwanegol neu bobl eraill y maent yn dymuno eu hychwanegu at eu cais (Cyfrifoldeb y Cyngor fydd penderfynu pan un a fydd yn caniatáu i bobl ychwanegol ymuno â'r cais);

(iv) Unrhyw aelod o'r teulu neu unrhyw unigolyn arall ar y cais sydd wedi gadael y llety; ac

(v) Unrhyw newidiadau sylweddol i incwm, cynilion neu asedau, sy'n debygol o gael effaith bendant ar y cais.

Nid yw'n dilyn y bydd pob newid i amgylchiadau yn arwain at newid blaenoriaeth. Fodd bynnag, gallai newid olygu bod ymgeisydd yn gymwys ar gyfer ffafriaeth ychwanegol neu gallai olygu nad yw ymgeisydd yn gymwys ar gyfer y band blaenoriaeth mwyach. Bydd y Cyngor yn dilysu ac yn asesu maint y newid er mwyn canfod a fydd hyn yn arwain at newid blaenoriaeth. Ni fydd ymgeiswyr yn cael eu hystyried ar gyfer tai tra bod y newid i amgylchiadau yn cael ei ddilysu a bydd y Cyngor yn ceisio asesu'r newid cyn gynted â phosibl.

Adolygu'r Gofrestr

Bydd cais pob cwsmer ar y Gofrestr Dai yn cael ei adolygu'n flynyddol. Gallai hyn fod yn seiliedig ar y dyddiad adolygu blynyddol neu adolygiad parhaus flwyddyn ar ôl dyddiad cofrestru'r ymgeisydd. Bydd llythyr yn cael ei anfon at bob cwsmer yn gofyn am gadarnhad o'i amgylchiadau presennol a'i fod yn dymuno aros ar y gofrestr. Os na dderbynnir ateb o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad anfon, byddai'r cais yn cael ei ddiddymu. Fodd bynnag, mae'n bwysig iawn i'r holl ymgeiswyr sicrhau bod unrhyw newid i amgylchiadau yn cael ei gyfathrebu i'r Tîm Homes4U pan fydd yn digwydd.

Diddymu Ceisiadau

Bydd cais yn cael ei ddiddymu o'r gofrestr dai o dan yr amgylchiadau canlynol:

- i. Ar gais y cwsmer.
- ii. Os na fydd y cwsmer yn gymwys ar gyfer un o'r seiliau cymhwys.
- iii. Pan fydd y cwsmer wedi derbyn tŷ.
- iv. O fethu ag ymateb i lythyr adolygu neu geisiadau am ragor o wybodaeth o fewn cyfnod amser penodol.
- v. Pan ganfyddir bod y cwsmer wedi rhoi gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol

O dan amgylchiadau (ii) a (v), bydd y cwsmer yn cael ei hysbysu yn ysgrifenedig am y rheswm pam mae ei gofrestriad wedi cael ei ddiddymu ac am ei hawl i wneud cais am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw.

Rhoi Gwybodaeth Anghywir

Mae'n drosedd o dan adran 171 Deddf Tai 1996 i unrhyw un sy'n gwneud cais am dŷ gan awdurdod tai i roi gwybodaeth anghywir yn ymwybodol neu i gadw gwybodaeth sy'n berthnasol i'w cais yn ôl. Mae hefyd yn drosedd os bydd unigolyn yn caniatáu i drydydd parti ddarparu gwybodaeth anghywir ar ei ran.

Gellir tynnu cwsmeriaid y canfyddir eu bod wedi cadw gwybodaeth yn ôl neu wedi rhoi gwybodaeth anghywir oddi ar y gofrestr ac ni fyddant yn gallu gwneud cais arall am gyfnod o flwyddyn. Bydd penderfyniadau i dynnu'r unigolyn oddi ar y gofrestr yn cael eu gwneud yn seiliedig ar ddifrifoldeb y wybodaeth anghywir a roddir ac asesiad o pam y cadwyd y wybodaeth yn ôl.

Gwaethygu Amgylchiadau yn Fwriadol

Pan fydd tystiolaeth fod cwsmer wedi gwneud ei sefyllfa o ran tai yn waeth er mwyn cael blaenoriaeth uwch ar y gofrestr, bydd yn cael ei asesu yn seiliedig ar yr amgylchiadau cyn i'w sefyllfa newid.

Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- Cwsmeriaid sydd wedi caniatáu i aelodau eu teulu neu eraill i symud i mewn i'w cartref, yr oedd ganddynt lety priodol cynt neu sydd â'r modd ariannol i sicrhau eu llety eu hunain, ac mae hyn wedi arwain at orlenwi'r cartref.
- Cwsmeriaid sydd wedi symud o lety blaenorol addas neu lety mwy addas yr oedd yn rhesymol iddynt barhau i fyw ynddo, i gartref llai addas.
- Perchnogion tai sydd wedi trosglwyddo eu cartref i aelod arall o'u teulu yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf o'r dyddiad y maent yn gwneud eu cais i ymuno â'r Gofrestr.
- Gadael llety rhent preifat fforddiadwy ac addas y gallant ei gynnal, i symud i mewn gyda pherthnasau eraill neu ffrindiau, gan greu sefyllfa o orlenwi a/neu rannu ystafell ymolchi/cegin a/neu aelwyd ranedig;
- Gwneud cais neu gynllwynio gyda landlord neu aelod o'r teulu i gyflwyno Hysbysiad Ymadael iddynt;

Adran 4: Datganiad y Cyngor ar Ddewis a'r gallu i ymgeiswyr fynegi dewis o ble mae'n dymuno byw.

Datganiad ar Ddewis

Mae'r Cyngor yn dymuno cyn belled â phosibl rheoli dewis i gwsmeriaid sy'n ceisio cael cynnig o dŷ cymdeithasol. Dyma pam mae'n gweithredu cynllun gosod yn seiliedig ar ddewis gyda Phartneriaid Cymdeithasau Tai sy'n gweithio yn y Fro i roi'r dewis gorau posibl i ymgeiswyr o ble maent yn dymuno byw.

Fodd bynnag, mae'n rhaid cydbwysu cynnig dewis â'r angen i'r Cyngor ddatrys sefyllfa rhai ymgeiswyr o ran tai ar frys, er enghraifft, pan fo aelwydydd digartref y ceir dyletswydd statudol i ddarparu tŷ iddynt. Gallai'r dewis fod yn gyfyngedig o dan rai amgylchiadau felly. I unrhyw ymgeisydd y mae dyletswydd ddigartrefedd iddo o dan adran 66, 73 neu 75 Deddf Tai Cymru 2014, gall y Cyngor wneud cynnig uniongyrchol o lety addas ar unrhyw adeg er mwyn cael gwared ar fygythiad o ddigartrefedd neu ddigartrefedd ei hun. Gallai hyn gyfyngu ar yr amser y gall ymgeisydd wneud cynnig am lety mewn ardal lle byddai'n well ganddo fyw felly. Gellid gwneud y cynnig o lety mewn unrhyw ran o'r Fwrdeistref Sirol.

Gallai penderfyniad i wneud cynnig uniongyrchol o lety y tu allan i'r system gosod yn seiliedig ar ddewis fod lle:

1. Nad yw ymgeisydd yn bod yn realistig o ran yr ardaloedd y mae'n gwneud cais am lety ynddynt ac y gallai fod yn byw mewn uned llety dros dro o ganlyniad, y gallai fod ei hangen ar gyfer ymgeisydd arall sydd newydd gyflwyno ei hun yn ddigartref.
2. Mae angen i'r Cyngor roi tŷ i aelwydydd y mae'r ddyletswydd ddigartrefedd yn berthnasol iddynt am resymau ariannol neu weithredol.

Mae'r pwysau o ran tai a wynebir yn cyfyngu ar y dewis y gall y Cyngor ei gynnig, ynghyd â'r cyfrifoldeb sydd gan y Cyngor i rai grwpiau sydd angen tŷ ar frys. I'r holl ymgeiswyr sy'n gymwys ac wedi'u cofrestru o dan y cynllun, mae'r Cyngor o'r farn y dylai unrhyw ymgeisydd allu mynegi ffafriaeth o ran yr ardal yr hoffai fyw ynddi a'r math o gartref y byddai'n ei hoffi'n ddelfrydol, ond dylai fod yn gwbl ymwybodol y gallai gallu'r Cyngor i fodloni'r ffafriaeth hon gael ei gyfyngu'n ddifrifol, ac nad yw mynegi ffafriaeth ynghylch lle y byddai'n well gan ymgeisydd fyw yn golygu y bydd y Cyngor yn gallu bodloni'r ffafriaeth honno, neu na fydd y Cyngor yn cynnig llety addas y tu allan i ardal a ffefrir er mwyn diwallu anghenion unrhyw ymgeisydd y mae unrhyw fath o ddyletswydd o dan Ran 2 Deddf Tai Cymru 2014 yn berthnasol iddo, neu i gynnig llety i unrhyw ymgeisydd arall nad yw dyletswydd o'r fath yn berthnasol iddo ond sydd angen tŷ ar frys y mae'n rhaid ei ddiwallu a bod yr angen i gynnig tŷ addas yn bwysicach na'r angen o ran ffafriaeth yr ymgeisydd i'r lleoliad y mae'n dymuno byw ynddo.

Bydd y Cyngor yn gofyn i bob ymgeisydd nodi'r ardaloedd hynny lle maent yn credu na allant fyw gan eu bod yn ofni trais, aflonyddwch neu gam-drin

domestig. Mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn fodlon bod ffactorau o'r fath yn bodoli ac y dylai, yn seiliedig ar y ffeithiau, gymryd y pryderon hyn i ystyriaeth.

Bydd yr holl ymgeiswyr (gweler isod ar gyfer sut yr ymdrinnir ag ymgeiswyr y mae unrhyw ddyletswydd o dan Ddeddf Tai Cymru 2014 yn berthnasol iddynt) sydd wedi gwrthod 2 gynnig o lety addas yn cael eu hisraddio o'r Band Ffafiaeth Is i'r rhai y mae ffafiaeth resymol yn ddyledus iddynt a'r Band Efydd ar gyfer y rhai nad yw ffafiaeth resymol yn ddyledus iddynt oni bai fod angen eithriadol o frys ac uniongyrchol iddynt gael tŷ.

Bydd unrhyw ymgeisydd yn aros yn y band is hwn am gyfnod o flwyddyn. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd wedyn ar ôl y cyfnod hwn fydd cysylltu â'r Cyngor ac, os bydd ei amgylchiadau presennol o ran tai yn ei gyfiawnhau, bydd yn cael ei ddychwelyd i'w Fand gwreiddiol gyda'i ddyddiad cofrestru gwreiddiol ar gyfer y Band hwnnw. Bydd unrhyw benderfyniad i hepgor y rheol ffafiaeth is am flwyddyn gan fod angen eithriadol o frys ac uniongyrchol i ddarparu tŷ yn cael ei wneud gan y rheolwr gwasanaeth sy'n gyfrifol am weithredu'r polisi dyrannu.

Bydd yr aelwydydd hynny 1) y mae dyletswydd ddigartrefedd yn berthnasol iddynt o dan adran 66, neu, a73, neu a75 Deddf Tai Cymru 2014 neu ymgeiswyr yr ystyrir eu bod yn ddigartref yn unol ag ystyr Rhan 2 Deddf Tai Cymru 2014, yn colli eu statws blaenoriaeth os caiff y ddyletswydd sy'n ddyledus iddynt ei therfynu oherwydd gwrthodiad un cynnig addas o lety. Wedi hynny, oni bai fod ganddynt reswm arall i fod yn un o'r bandiau blaenoriaeth Aur neu Arian, byddant yn cael eu rhoi yn y Band Efydd. Bydd yr un cynnig o lety addas a wneir hefyd yn terfynu unrhyw ddyletswydd ddigartrefedd statudol sy'n ddyledus o dan a66, a73, neu a75 a byddant yn cael eu rhybuddio'n ysgrifenedig am y canlyniad hwn ar yr adeg y caiff cartref ei gynnig iddynt yn ffurfiol.

Adran 5: Sut y caiff anghenion ac amgylchiadau tai ymgeisydd eu hasesu.

Bydd system fandio yn cael ei defnyddio i benderfynu pryd i wneud cynnig o lety ac i bwy.

Y System Fandio

Ceir tri band, Aur, Arian ac Efydd. Rhennir y Bandiau Aur ac Arian rhwng Aur Ychwanegol ac Aur ac Arian Ychwanegol ac Arian. Bydd cartrefi yn cael eu dyrannu yn y drefn ganlynol fel rheol:

1. **Y band Aur - Blaenoriaeth Uchel:** Ymgeisydd yw'r rhain y mae dyfarniad statudol o ffafriaeth resymol yn ddyledus iddynt, ond y mae'r Cyngor yn credu y dylid hefyd dyfarnu ffafriaeth ychwanegol iddynt yn seiliedig ar eu hanghenion tai brys.
2. **Y band Arian – Blaenoriaeth Ganolig:** Ymgeisydd yw'r rhain y mae dyfarniad statudol o ffafriaeth resymol yn ddyledus iddynt o dan y polisi.
3. **Y band Efydd – Blaenoriaeth Isel:** Ymgeisydd yw'r rhain na aseswyd eu bod yn y grŵp ffafriaeth ychwanegol na'r grŵp ffafriaeth resymol. Sylwer: O ystyried y galw am dai cymdeithasol mewn rhai ardaloedd o'r Fwrdeistref Sirol, mae ymgeiswyr o'r fath yn debygol o fod yn llwyddiannus wrth geisio am ardaloedd llai poblogaidd neu fathau penodol o gartref a allai fod ar gael yn y Fwrdeistref Sirol.

Ceir tabl cryno isod o ba amgylchiadau fydd yn cael eu neilltuo i un o'r 3 band. Dim ond tabl cryno yw hwn, a nodir y diffiniad llawn o'r meini prawf a ddefnyddir i ddyfarnu'r band blaenoriaeth yn atodiad 1.

Adran 6: Tabl Bandio Cryno

Sylwer bod y disgrifiadau a ddefnyddir isod yn grynodedb o'r meini prawf cymhwyso ar gyfer pob Band. Nid yw hwn yn disodli'r polisi manwl llawn ar sut y bydd anghenion tai ymgeisydd yn cael eu hasesu er mwyn penderfynu pa Fand fydd yn cael ei ddyfarnu. Mae hwn wedi ei gynnwys yn atodiad 1 y Polisi.

<p>Y BAND AUR A MWY: Band Angen Brys â ffafriaeth ychwanegol yn cael ei dyfarnu i aelwydydd y mae ffafriaeth resymol yn ddyledus iddynt ac y mae'n rhaid diwallu eu hanghenion tai ar frys.</p> <p><i>Sylwer: Mewn achosion o frys uniongyrchol, bydd hyn yn cael ei benderfynu gan Bennaeth Tai Polisi HOMES4U y Cyngor ar y cyd ag uwch gynrychiolydd enwebedig o bartneriaeth HOMES4U.</i></p> <p><i>Ym mhob achos arall lle nad oes angen penderfyniad ar unwaith, gellir cyfeirio penderfyniad at Banel Asesu ac Eithriadau Gosod Tai HOMES4U. Mewn rhai achosion, gallai materion tai sy'n cyfiawnhau'r bandio hwn gael eu lliniaru gan gynnig uniongyrchol o lety.</i></p>	<p>Categori Angen</p>
<p>Meddygol Brys, neu anabledd.</p> <p>Amgylchiadau Meddygol Brys neu Anabledd</p> <p><i>Sylwer: Dyfernir ffafriaeth ychwanegol i ymgeisydd sydd ag angen hynod frys ac uniongyrchol i symud am resymau meddygol neu oherwydd anabledd, sy'n cael eu gwaethygu gan ei sefyllfa dai bresennol, yn dibynnu ar ddifrifoldeb yr amgylchiadau.</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae hyn yn cynnwys pan fydd gan yr ymgeisydd neu aelod o aelwyd yr ymgeisydd gyflwr sy'n fygythiad i'w fywyd, sy'n cael ei effeithio'n ddifrifol gan ei dŷ presennol, neu na all gael mynediad i'w gartref oherwydd salwch neu anabledd.
<p>Y Rheini sy'n Gadael y Lluoedd Arfog</p>	<ul style="list-style-type: none"> Aelodau'r lluoedd arfog a'u teuluoedd, sy'n gwasanaethu yn y lluoedd rheolaidd a fydd yn cael eu rhyddhau o fewn 3 mis, neu sydd wedi gwasanaethu yn ystod y 5 mlynedd cyn eu cais am ddyraniad llety tai ac nad oes ganddynt fynediad at eu tŷ eu hunain. Yn cynnwys gwagedd/gwŷr gweddwr personol a laddwyd wrth wasanaethu. Dylid hefyd cynnwys lluoedd arfog wrth

	<p>gefn sy'n gwasanaethu a'u teuluoedd sydd wedi gwasanaethu'n weithredol yn ystod y 5 mlynedd cyn eu cais. Yn cynnwys gwagedd/gwŷr gweddw personel a laddwyd wrth wasanaethu.</p>
<p>Angen eithriadol i symud – Cyflwr Tŷ – Addasrwydd neu orlenwi</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Tenantiaid sector preifat sy'n byw mewn amodau sy'n peri risg uniongyrchol o niwed difrifol a lle mae'r Awdurdod Lleol wedi cyflwyno Gorchymyn Gwahardd o dan Ran 1 Deddf Tai 2004 ac mae'r Cyngor yn fodlon na all y landlord ddatrys y broblem o fewn 6 mis ac o ganlyniad, bydd parhau i fyw yn y llety yn achosi, ym marn y Cyngor, risg sylweddol i iechyd yr ymgeisydd. Mae hyn yn cynnwys cartref â lleithder difrifol, diffygion strwythurol mawr gan gynnwys ymsuddiant, llifogydd, to'n dymchwel, neu fod ag amodau byw sy'n niwsans statudol, ac nad oes disgwyl i'r problemau gael eu datrys o fewn cyfnod amser o 6 mis. • Dymchwel neu Orchymyn Prynu Gorfodol (CPO). Pan fo cartref yr ymgeisydd yn destun dymchweliad neu'n destun Gorchymyn Prynu Gorfodol ar gyfer ailddatblygu. • Amgylchiadau eithriadol oherwydd problemau sylweddol yn gysylltiedig â meddiannaeth y tenant o annedd yn y sector rhent cymdeithasol neu breifat ac mae perygl mawr i ddiogelwch y tenant neu ei

	deulu os byddant yn aros yn yr annedd/ardal.
Cartref wedi'i addasu ar gyfer rhyddhad	<ul style="list-style-type: none"> • Pan nad oes angen cartref wedi'i addasu'n arbennig at ddefnydd pobl anabl ar y tenant, a cheir galw am ei ddefnydd gan ymgeisydd anabl sydd angen tŷ yn fawr. • Pan fod cartref tenant yn addas i'w addasu ac mae'r Cyngor yn penderfynu y byddai o fudd o aelwyd arall sydd angen cartref y gellir ei addasu ac yr ystyrir bod y cartref yn un addas i ddiwallu anghenion ymgeisydd penodol.
Gorlenwi	<ul style="list-style-type: none"> • Gorlenwi gormodol i fwy na 2 ystafell wely wedi ei fesur gan y safon ystafelloedd gwely a'i ddiffinio gan y Matrics HOMES4U.
Y rheini sy'n byw mewn Tai â Chymorth yr aseswyd eu bod yn barod i symud ymlaen i fyw'n annibynnol	<ul style="list-style-type: none"> • Dyfernir y categori hwn i ymgeiswyr ar gyfer prosiectau rhestredig penodol yn unol â phrotocolau a gytunwyd rhwng y Cyngor a'r corff sector gwirfoddol.
Gadael gofal	<ul style="list-style-type: none"> • Dyfernir y categori hwn i ymgeiswyr yn unol â phrotocolau rhwng Adrannau Tai a Gwasanaethau Plant Cyngor Bro Morgannwg. Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod yn gyn "Blentyn Perthnasol fel y'i diffinnir gan Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2002.
Gofalwyr Maeth	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai hyn yn cynnwys gofalwyr maeth, y rheini a gymeradwywyd i fabwysiadu, neu'r rheini sy'n cael eu hasesu ar gyfer cymeradwyaeth i faethu neu fabwysiadu, sydd angen

	<p>symud i gartref mwy er mwyn cael lle ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal neu blentyn a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol gan awdurdod lleol. Byddai hefyd yn cynnwys gwarcheidwaid arbennig, deiliaid gorchymyn preswyliaid a gofal sy'n deulu a ffrindiau nad ydynt yn ofalwyr maeth ond sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am ofal plentyn gan nad yw'r rhieni yn gallu darparu gofal.</p>
<p>Y BAND AUR: Aseswyd bod ffafriaeth resymol yn ddyledus oherwydd eu lefel uwch o angen am dŷ</p>	<p>Mae ffafriaeth resymol statudol yn ddyledus i bob un o'r canlynol.</p>
<p>Ymgeiswyr y mae dyletswyddau a enwir yn benodol iddynt o dan ddarpariaethau digartrefedd Deddf Tai Cymru 2014</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Pob aelwyd y mae dyletswydd ddigartrefedd lawn iddi o dan adran 75 y ddeddfwriaeth • Unrhyw aelwydydd y mae dyletswydd Adran 73 iddynt ac y mae dyletswydd llety dros dro adran 68 iddynt hefyd gan eu bod neu y gallent fod mewn angen blaenoriaeth. Dyfernir Band Aur iddynt ar gyfer y cyfnod amser y mae'r ddyletswydd honno'n ddyledus iddynt a'u bod yn aros mewn llety dros dro. <p><i>Sylwer: Dyfernir Band Arian Ychwanegol i unrhyw aelwyd y mae dyletswydd i atal eu digartrefedd (dyletswydd Adran 66) iddynt tra bod y ddyletswydd yn ddyledus a bydd hyn yn gostwng i'r Band Efydd ar ôl i'r ddyletswydd ddod i ben.</i></p>
<p>Gorlenwi</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ymgeiswyr nad oes ganddynt 2 ystafell wely, fel y'u mesurir gan y safon ystafelloedd gwely ac a ddiffinnir gan y

	Matrics HOMES4U.
Ymgeiswyr sy'n byw mewn tai anfoddhaol nad oes ganddynt gyfleusterau sylfaenol	<ul style="list-style-type: none"> • Ymgeiswyr heb fynediad o gwbl at unrhyw un o'r cyfleusterau canlynol. Dim mynediad at: <ul style="list-style-type: none"> ○ Faddon neu gawod ○ Toiled ○ Cyfleusterau coginio ○ Cyflenwadau dŵr poeth sy'n rhedeg ○ Trydan/nwy y mae ei angen ar gyfer gweithgareddau hanfodol <p>Ni fydd ymgeiswyr sydd â mynediad at gyfleusterau a rennir yn unig mewn llety a rennir yn gymwys o dan y meini prawf hyn.</p> • Ymgeisydd/wyr sydd mewn llety rhent preifat ar hyn o bryd sy'n destun Gorchymyn Gwahardd, a bod angen adfer y cartref er mwyn cydymffurfio â'r Gorchymyn fel y diffinnir gan Adran 33 Deddf Tai 2004
Tenantiaid sy'n tanfeddiannu	Tenantiaid y Cyngor neu Gymdeithas Dai sy'n aelod o Bartneriaeth HOMES4U sy'n tanfeddiannu llety teuluol o un neu fwy o ystafelloedd gwely o'i gymharu â'r Safon Ystafelloedd Gwely.
Rhesymau meddygol	Ymgeiswyr sydd ag angen brys i symud am resymau meddygol gan fod eu cartref presennol yn cael effaith niweidiol ddifrifol ar eu hiechyd neu aelod o'r aelwyd, ond nad ydynt yn gymwys ar gyfer blaenoriaeth feddygol frys AUR YCHWANEGOL (gweler y manylion ar gyfer y dyfarniad polisi yn atodiad 1 am fanylion sut y bydd blaenoriaeth feddygol AUR YCHWANEGOL ac AUR yn cael ei hasesu).

<p>Y BAND ARIAN YCHWANEGOL: Ffafiaeth resymol ac angen adnabyddadwy</p>	
<p>Ymgeiswyr y mae dyletswyddau a enwir yn benodol iddynt o dan ddarpariaethau digartrefedd Deddf Tai Cymru 2014</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Pobl sy'n ddigartref yr aseswyd nad oes dyletswydd a75 iddynt gan na ganfyddir eu bod mewn angen blaenoriaeth. • Unrhyw aelwydydd y mae dyletswydd adran 73 iddynt i liniaru digartrefedd yr unigolyn hwnnw ond nad oes dyletswydd llety dros dro adran 68 iddynt gan fod y Cyngor yn fodlon nad ydynt yn pasio'r prawf cyfreithiol 'gallai fod mewn angen blaenoriaeth'. • Pobl y dilyswyd gan yr awdurdod eu bod yn cysgu ar y stryd ym Mro Morgannwg. • Ymgeiswyr y mae dyletswydd dan fygythiad o fod yn ddigartref A66 iddynt.
<p>Caledi</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Dyfennir ffafiaeth resymol ar gyfer achosion o galedi ariannol, yn dilyn asesiad, pan fo ymgeisydd yn byw yn y sector rhentu preifat. Diffinnir hyn yn y polisi fel teuluoedd sy'n gweithio y mae lefelau eu hincwm a'r oriau y maent yn gweithio yn gymwys ar gyfer Credydau Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio ac sy'n ei chael hi'n anodd bodloni'u costau tai yn y sector rhentu preifat. • Caledi o ran Cyflogaeth - Rhoddir blaenoriaeth dan amgylchiadau eithriadol yn unig a bydd angen i ymgeiswyr ddangos bod angen iddynt symud er mwyn parhau i weithio neu i fanteisio ar gyfle cyflogaeth nad yw ar gael yn rhywle arall. Cânt ond eu hystyried lle nad ydynt yn bwy o fewn pellter teithio rhesymol a

	bydd angen iddynt ddarparu cadarnhad o fanylion cyflogaeth gan eu cyflogwr.
Y BAND ARIAN: Mae'r band hwn yn cynnwys ymgeiswyr y mae Ffafiaeth Resymol yn ddyledus iddynt ond y dyfarnwyd ffafiaeth ddiwygiedig ar eu cyfer (ffafiaeth is) o dan y Polisi oherwydd ôl-ddyledion rhent, ymddygiad gwael, dim cysylltiad lleol, cynilion, ecwiti neu enillion, neu lle gwrthodwyd 2 gynnig.	
Bydd ymgeiswyr y mae dyletswydd A66, neu A73, neu A75 iddynt gan Gyngor arall yn hytrach na Chyngor Bro Morgannwg yn derbyn ffafiaeth is ac ar waelod y Band Arian. Ymgeiswyr y byddai ffafiaeth resymol wedi bod yn ddyledus iddynt ond y mae eu blaenoriaeth wedi cael ei gostwng yn unol â'r polisi a nodir yn y brif ddogfen bolisi oherwydd ôl-ddyledion rhent, digartrefedd bwriadol, ymddygiad gwael, dim cysylltiad lleol, cynilion, ecwiti neu enillion, neu am wrthod 2 gynnig o lety.	<ul style="list-style-type: none"> Dyfernir y Band ffafiaeth resymol i ymgeiswyr y mae eu hanghenion tai a aseswyd yn ei gyfiawnhau pan fyddant wedi cydymffurfio â'r meini prawf ar gyfer diddymu ffafiaeth is. Cyflwynir hyn yn llawn yn y polisi.
Gorlenwi	<ul style="list-style-type: none"> Ymgeiswyr sy'n byw mewn amodau llety gorlawn ac yr aseswyd bod eu hamgylchiadau tai 1 ystafell wely'n brin o'r hyn sydd ei angen arnynt.
Ymgeiswyr na aseswyd bod ffafiaeth resymol yn ddyledus iddynt ond sy'n bodloni meini prawf 'Cyfraniad Cymunedol Cadarnhaol' HOMES4U, gan gynnwys: Ymgeiswyr na aseswyd bod ffafiaeth resymol yn ddyledus iddynt ond sy'n bodloni'r gofynion Gweithiwr Allweddol cydnabyddedig	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r ymgeisydd/wyr yn rhan o gynllun Gweithiwr Allweddol cydnabyddedig a gefnogir gan Gyngor Bro Morgannwg, sydd wedi cael cynnig swydd lawn amser ym Mro Morgannwg o dan gynllun gweithiwr allweddol cydnabyddedig ac angen llety.
Caledi	<ul style="list-style-type: none"> Ymgeiswyr sy'n byw mewn fflat sy'n uwch na lefel y llawr cyntaf (heb lifft) ag o leiaf un plentyn dan 5 sy'n preswyllo yn y cartref yn barhaol. Caledi Cymorth – Rhoddir blaenoriaeth o dan

	<p>amgylchiadau eithriadol yn unig a bydd angen i gwsmeriaid ddangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Eu bod angen cymorth sylweddol a pharhaus gan berthnasau neu ffrindiau neu mae'n hanfodol eu bod yn rhoi cymorth sylweddol a pharhaus i berthnasau. Bydd hyn yn cael ei ystyried dim ond lle ceir mater iechyd meddwl, meddygol neu les difrifol ac mae rhesymau pam na ellir sicrhau neu gynnal y cymorth hwn trwy ddibyniaeth ar drafnidiaeth gyhoeddus neu gludiant y cwsmer ei hun. Angen symud i'r band arian • Angen i gael mynediad at gyfleusterau gofal meddygol a/neu wasanaethau cymdeithasol ac nad yw hynny'n bosibl trwy ddibyniaeth ar drafnidiaeth gyhoeddus, cludiant y cwsmer ei hun, neu drwy ddarpariaeth a wnaed gan wasanaethau iechyd neu gymdeithasol.
<p>Ymgeiswyr y mae ffafriaeth is yn ddyledus iddynt fel y nodir yn Atodiad 1 y polisi</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ymgeiswyr y mae Ffafriaeth Resymol yn ddyledus iddynt ond sydd wedi derbyn ffafriaeth ddiwygiedig (ffafriaeth is) o dan y Polisi oherwydd ôl-ddyledion rhent, ymddygiad gwael, dim cysylltiad lleol, cynilion, ecwiti neu enillion, neu lle gwrthodwyd 2 gynnig
<p>Y BAND EFYDD: Ymgeiswyr heb unrhyw angen adnabyddadwy am dŷ</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ymgeiswyr sydd wedi gwneud cais digartrefedd ac y penderfynwyd gan y Cyngor eu bod yn ddigartref ond nad oes dyletswydd a75 iddynt oherwydd y canfuwyd eu bod yn ddigartref yn fwriadol. Sylwer y bydd yr achosion hyn ar frig y band efydd • Yr holl ymgeiswyr eraill sy'n denantiaid y Cyngor neu Landlord Cymdeithasol

	<p>Cofrestredig ac yn byw mewn llety sy'n ddigonol ar gyfer eu hanghenion.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgeisydd/wyr sy'n feddianwyr cartref neu'n byw mewn cartref rhent preifat sy'n diwallu eu hanghenion yn briodol. • Yr holl ymgeiswyr eraill nad oes unrhyw gategori arall a amlinellir uchod yn berthnasol iddynt. • Methiant ymgeiswyr i roi sylw i ôl-ddyledion rhent blaenorol neu ddyledion sy'n gysylltiedig â thai • Achosion lle ystyrir bod ymgeisydd neu aelod o'r aelwyd yn euog o ymddygiad annerbyniol neu y mae ganddo ôl-ddyledion rhent cyfredol neu flaenorol. Bydd pa un a ellir ei ystyried ar gyfer cynnig o dŷ cymdeithasol yn dibynnu ar gymhwysiad y polisïau ymddygiad annerbyniol ac ôl-ddyledion rhent. • Nid yw'r Cyngor o'r farn ei fod yn barod i symud ymlaen neu'n barod i gynnal tenantiaeth tan fod cymorth ar waith neu fod cynllun cymorth i alluogi ymgeisydd i fod yn barod ar gyfer tenantiaeth wedi ei gwblhau.
--	---

Pan fo eithriadau yn berthnasol i'r dyraniad fesul band ac amser aros o fewn gweithdrefnau'r bandiau.

Bydd blaenoriaeth o fewn Band yn cael ei phennu gan faint o amser y mae'r cais wedi bod yn y Band hwnnw a bydd y rhan fwyaf o ddyraniadau yn cael eu gwneud fesul band a'r cyfnod y maent wedi aros o fewn y Band hwnnw. Bydd cynnig yn cael ei wneud i ymgeisydd y tu allan i'r band blaenoriaeth a'r weithdrefn 'amser cofrestredig' o dan rai amgylchiadau. Bydd hyn pan fo angen brys i aelwyd unigol gael tŷ neu lle ceir angen gweithredol neu ariannol i ddarparu tŷ ar gyfer categorïau penodol o ymgeiswyr.

Er enghraifft, pan roddwyd ffafriaeth ychwanegol i ymgeisydd oherwydd angen eithriadol o frys am dŷ, gellir ei roi ar frig y band blaenoriaeth a gwneud cynnig o dŷ iddo cyn gynted â phosibl. Byddai penderfyniad bod angen unigolyn am dŷ yn eithriadol o frys yn cael ei wneud gan y Panel Asesu Gosodiadau a Gwaharddiadau neu gallai gael ei wneud gan y Prif Swyddog sy'n gyfrifol am bolisi dyrannu'r Cyngor mewn achosion brys.

Hefyd, gallai fod amgylchiadau eraill lle ceir rhesymau gweithredol neu ariannol brys i wneud cynnig uniongyrchol o dŷ y tu allan i'r meini prawf trefn o ran band a dyddiad. Nodir y meini prawf cymhwyso ar gyfer dyfarnu ffafriaeth ychwanegol yn atodiad 1. Yn benodol, dyma enghreifftiau o'r amgylchiadau lle gallai fod rhesymau gweithredol neu ariannol brys i ddyrannu y tu allan i'r meini prawf trefn o ran band a dyddiad:

- Pobl sydd angen symud oherwydd tân neu lifogydd, neu ddifrod storm ddifrifol i'w cartref.
- Pobl sydd mewn perygl uniongyrchol o drais ac sydd i dderbyn tŷ trwy raglen diogelu tyst.
- Pobl y cytunwyd bod rhaid darparu tŷ iddynt ar frys yn rhan, er enghraifft o - brotocol amlasiantaeth fel achos MAPPA, MARRAC neu brotocol rhwng Adrannau Tai a Gofal Cymdeithasol y Cyngor lle cytunwyd ar angen rhwng gwasanaethau tai a chymdeithasol i ddarparu cartref penodol i unigolyn agored i niwed.
- Pan fo ymgeisydd yn ddi-gartref ac mewn llety dros dro na fyddai'n addas am fwy na chyfnod byr o amser neu pan fo'r Cyngor angen symud ymgeiswyr allan o lety dros dro i reoli'r effaith gyllidebol ar y Cyngor yn ei gyfanrwydd.
- Pan fo cartref wedi ei addasu gwag neu gartref sydd wedi ei ddylunio yn ôl safonau anabledd yn dod ar gael, gellir ei gynnig i'r cwsmeriaid hynny sydd angen y math hwn o gartref waeth pa ddyddiad y'u cofrestrwyd.

Gweithrediad y Panel Asesu Gosodiadau a Gwaharddiadau

Bydd y gwaith o asesu ceisiadau yn cael ei gefnogi gan weithrediad Panel Asesu Gosodiadau a Gwaharddiadau. Mae'r Panel hwn yn cynnwys cynrychiolydd enwebedig o'r holl bartneriaid gyda'r grym dirprwyedig i wneud penderfyniad neu argymhelliad.

Bydd gan y Panel gylch gwaith eang, gan gynnwys:

- a) Pan fydd achos yn cyfiawnhau darparu tŷ ar unwaith oherwydd brys eithriadol
- b) Unrhyw achosion cymhleth lle na fu'n bosibl dyfarnu blaenoriaeth feddygol yn seiliedig ar y meini prawf a'r broses a bennwyd
- c) Pan hawlir bod amgylchiadau lles neu amgylchiadau eithriadol nad ydynt wedi eu cynnwys ym meini prawf y polisi
- ch) Pan allai fod achos sensitif sy'n gofyn am osodiad sensitif
- d) Pan fydd Cymdeithas Dai yn dymuno dyrannu cartref mwy nag y mae aelwyd yr ymgeisydd yn gymwys ar ei gyfer.
- dd) Gweithrediad y Polisi Gwaharddiadau
- e) I gytuno a phenderfynu sut i gymhwyso unrhyw Bolisi Gosod Lleol ac i adolygu'r polisi hwnnw

f) Monitro perfformiad a gwybodaeth gosod tai

Bydd y Panel yn ystyried pob achos ynghyd ag unrhyw wybodaeth ategol a ddarparwyd ac yn penderfynu pa flaenoriaeth a ddylid ei dyfarnu yn seiliedig ar ddifrifoldeb yr achos. Pan fydd y Panel yn gwneud penderfyniad cadarnhaol, bydd yr aelwyd yn derbyn un cynnig uniongyrchol o lety a ystyrir yn addas i ddatrys yr angen brys i ailgartrefu. Lle gwrthodir cynnig uniongyrchol, bydd yr ymgeisydd yn cael cynnig y cyfle i apelio yn ysgrifenedig o fewn 48 awr ar gyfer y panel i ystyried. Os byddant yn aflwyddiannus, ni chynigir unrhyw gynigion uniongyrchol pellach.

Bydd y Panel hefyd yn argymhell ble ddylid cynnig tŷ newydd i'r sawl sy'n chwilio am gartref er mwyn datrys unrhyw amgylchiadau brys.

Bydd cofnod yn cael ei gadw o benderfyniadau'r Panel a'r rheswm am wneud penderfyniad ar gais penodol. Nodir cylch gwaith y Panel yn atodiad 6.

Adran 7: Cynnig llety a'r broses adolygu

Mae'r tabl isod yn nodi math a maint y llety a gynigir i aelwydydd fel rheol.

Maint Teulu	Cartref a Rennir	Fflat Un Ystafell / Stiwdio	Byngalo	Fflat 1 Ystafell Wely	Fflat neu Fflat Deulawr 2 Ystafell Wely	Tŷ 2 Ystafell Wely	Fflat Deulawr 3 Ystafell Wely	Tŷ / Byngalo 3 Ystafell Wely	Tŷ 4 ystafell wely a mwy
Unigolyn Sengl	le	le	le	le					
Unigolyn Sengl 55+ oed	le	le	le	le					
Cwpl				le					
Cwpl 55+ oed			le	le	le				
*Rhiant / cwpl ag 1 plentyn					le	le			
*Rhiant / cwpl â 2 o blant					le	le	le	le	
*Rhiant / cwpl â 3 o blant							le	le	le
*Rhiant / cwpl â 4+ o blant							le	le	le

Bydd y rheolau canlynol yn berthnasol i faint a math y cartref a gynigir o dan y cynllun:

- Pan gyfeirir at blentyn yn y tabl, mae hyn yn cyfeirio at o leiaf 1 plentyn dibynnol o dan 18 oed a/neu sy'n gymwys i dderbyn Budd-dal Plant. Ni fydd ymgeiswyr lle nad oes unrhyw blant dibynnol yn cael cynnig tai ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol a gytunwyd gyda phanel HOMES4U.
- Bydd tai gwarchod ar gael i ymgeiswyr dros 60 oed yn unig fel rheol. Fodd bynnag, efallai y bydd gan sefydliadau partner reolau unigol, er enghraifft gallai rhai ddyrannu i unigolyn dros 50 oed os oes diagnosis o gyflwr meddygol.
- Bydd y Cyngor yn dyrannu fflatiau llaw daear a lloriau uwch un a dwy ystafell wely i bob aelwyd (gyda rhai eithriadau fel cartrefi wedi eu haddasu'n benodol).
- Bydd byngalos (ac eithrio cartrefi wedi eu haddasu'n benodol) yn cael eu dyrannu i aelwydydd ag aelod o'r teulu sy'n hŷn na 55 oed. Os nad oes unrhyw aelwydydd cymwys yn bodloni'r meini prawf hyn, yna bydd pobl eraill yn cael eu hystyried sy'n iau na'r oedran hwn gan gymryd eu hamgylchiadau i ystyriaeth.
- Bydd cartrefi wedi eu haddasu yn cael eu dyrannu i'r aelwyd yr aseswyd gan y cyngor fyddai'n elwa fwyaf o'r addasiadau presennol yn y cartref. Bydd y cyngor yn gofyn am gyngor gan Therapydd Galwedigaethol wrth wneud y penderfyniad hwn.
- Gallai Cymdeithas Dai ystyried dyrannu cartref mwy nag aelwyd yr ymgeisydd os bydd yr ymgeisydd yn gofyn amdano a bod y gymdeithas yn fodlon y gall yr ymgeisydd fforddio'r rhent. Dylid cael cymeradwyaeth drwy'r Panel Asesu Gosodiadau a Gwaharddiadau.
- Dyrennir maint yr eiddo yn dibynnu ar oedran a rhyw plant yn unol â rheoliadau cymhwyster Budd-dal Tai, p'un a yw ymgeisydd yn gymwys ar y pryd ar gyfer Budd-dal Tai ai peidio.
- Bydd dyrannu llety cyfyngedig o oedran sy'n eiddo i'r Cyngor yn ystyried oedran unrhyw ddeiliaid sydd wedi cofrestru gyda'r ymgeisydd ar y pryd. Ni chaiff eiddo ei ddyrannu i ymgeiswyr lle nad yw preswylwyr yn bodloni cyfyngiad oedran y llety.

Maint a math y cartref y mae ymgeiswyr yn gymwys ar ei gyfer

Er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r stoc dai sydd ar gael, mae'n hanfodol gosod tai gwag i'r rheini sydd angen y maint a'r math hwnnw o gartref. Mae enghreifftiau yn cynnwys tai â dwy neu fwy o ystafelloedd gwely i'w gosod i deuluoedd â phlant dibynnol, fflatiau gwarchod ar gyfer pobl hŷn a chartrefi sydd wedi cael eu hadeiladu neu eu haddasu ar gyfer unigolyn ag anabledd corfforol neu synhwyrdd.

Wrth benderfynu ar faint a math cartref y mae ymgeiswyr yn gymwys i'w dderbyn, defnyddir y Safon Ystafelloedd Gwely yn Atodiad 2 fel rheol.

O dan amgylchiadau eithriadol, gall Rheolwr HOMES4U arfer disgrisiwn wrth wro o'r Safon Ystafelloedd Gwely. Dyma enghreifftiau:

- a) I'r ymgeiswyr hynny sydd wedi gwahanu neu ysgaru ac yn gofalu am eu plant weithiau, bydd y Rheolwr HOMES4U yn ystyried pa mor aml ac am ba hyd y mae'r plant yn aros â hwy. Os yw'n briodol, gall y swyddog hwnnw arfer disgrisiwn a dyfarnu ystafelloedd gwely ychwanegol i'r plant yn unol â chanllawiau cenedlaethol.
- b) Pan fo ymgeiswyr angen llety mwy am resymau iechyd. Bydd y Rheolwr HOMES4U yn ystyried hyn ar sail achosion unigol, gan gymryd cyngor cynghorydd meddygol cymwysedig i ystyriaeth.
- c) Pan fo galw prin neu ddim galw am dŷ gwag penodol, a'u fod yn anodd ei osod felly.
- ch) Pan ellir nodi ymgeiswyr priodol i wneud y defnydd gorau o lety mwy.
- d) Pan fydd yr ymgeisydd wedi cael ei gymeradwyo fel gofalwr maeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac felly y bydd angen cartref mwy arno na'r hyn sydd ei angen ar yr aelwyd fel rheol.
- dd) Pan fydd yr ymgeisydd neu aelod o'r aelwyd angen cymorth gofalwr y bydd angen iddo gysgu yn y cartref ac na ellir disgwyl yn rhesymol iddo rannu ystafell wely gydag aelod arall o'r aelwyd. Gweler y paragraff isod am ragor o wybodaeth am gynnwys gofalwr mewn cais am dŷ.

Cynnwys Gofal yn y cais

Rhywun sy'n darparu help a chefnogaeth, gyda thâl neu'n ddi-dâl, i bartner, perthynas, ffrind neu gymydog, na fyddai'n ymdopi heb ei help yw gofalwr. Gallai hyn fod oherwydd oedran, iechyd corfforol neu feddwl, caethiwed neu anabledd. Yn mhob achos, mae'n rhaid bod y gofalwr wedi cael ei nodi gan yr ymgeisydd fel y sawl sy'n bennaf gyfrifol am ddarparu cymorth iddo, a'r angen i fyw ag ef neu gerllaw.

Hyd yn oed os yw gofalwr yn derbyn Lwfans Gofalwr, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod angen iddo fyw gyda'r unigolyn sy'n derbyn gofal. Bydd cais i gynnwys gofalwr mewn cais am dŷ yn cael ei ystyried os bydd maes Gofal Cymdeithasol ac Iechyd wedi asesu bod angen i'r gofalwr ddarparu cymorth dros nos. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth gefnogol gan asiantaethau eraill e.e. gweithiwr Gofal Cymdeithasol neu Iechyd proffesiynol.

Cynigion o lety

Mae'r adran hon yn nodi'r weithdrefn a fydd yn berthnasol i wneud y cynnig o lety ar ôl i ymgeisydd gael ei ddethol o restr fer o ymgeiswyr llwyddiannus sy'n gwneud cais am y cartref hwnnw.

Ar ôl dethol a chyn gwneud cynnig, bydd y Cyngor neu landlord Cymdeithas Dai y cartref hwnnw yn gwneud dilysiad pellach o gymhwysedd a blaenoriaeth y cwsmer. Mewn rhai sefyllfaoedd, ni fydd y cynnig yn cael ei wneud neu efallai'n cael ei dynnu'n ôl os;

- Bydd ymgeisydd wedi dod yn anghymwys ers ymuno â'r cynllun.
- Ar ôl dilysu manylion yr ymgeisydd, y canfuwyd fod y band blaenoriaeth wedi cael ei ddyfarnu'n anghywir oherwydd y wybodaeth a dderbyniwyd gan yr ymgeisydd neu oherwydd camgymeriadau yn yr asesiad o'r cais ei hun.
- Bydd amgylchiadau'r ymgeisydd wedi newid ers dyfarnu'r band blaenoriaeth ac nad oes gan yr ymgeisydd hawl i'r un lefel o flaenoriaeth mwyach.
- Bydd gan y landlord reswm rheoli tai da dros beidio â chynnig cartref.

Er mwyn sicrhau tegwch a chydonseb ar draws y Cyngor a'r holl Bartneriaid Cymdeithasau Tai i bolisi Homes4U, bydd *'Polisi Gwaharddiadau'* yn cael ei gytuno gan y Cyngor a'r holl bartneriaid sy'n cymryd rhan ac mae drafft ynghlwm yn atodiad 4 y polisi. Mae'r Polisi Gwaharddiadau yn cynnwys yr amgylchiadau pan ellir osgoi ymgeisydd sydd wedi gwneud cais am gartref yn gyfreithlon ar gyfer y cartref hwnnw.

Os na fydd cwsmer yn ymateb i gynnis o fewn 2 ddiwrnod gwaith o dderbyn cynnig, yna ystyrir bod y cynnig wedi cael ei wrthod a bydd y cartref yn cael ei gynnis i'r cwsmer nesaf ar y rhestr fer sy'n gymwys ar gyfer y cynnig hwnnw.

Mae cynnis priodol o lety yn golygu bod y cartref:

- O'r maint cywir ar gyfer yr aelwyd
- Bod unrhyw effaith bosibl lleoliad y cartref ar addysg, cyflogaeth, cymorth a gwasanaethau hanfodol wedi cael eu hystyried yn llawn a bod y Cyngor o'r farn ei fod yn briodol.
- Yn rhydd o'r bygythiad o drais neu gam-drin domestig
- Mewn ardal a ddewiswyd. Gweler y nodyn isod

Nodyn: Ceir adegau ac amgylchiadau pan allai hyn gael ei amrywio. Er enghraifft:

1) Gall y Cyngor wneud cynnis priodol y tu allan i ardal o ddewis er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau cyfreithiol ar gyfer pobl anabl, neu i leihau effaith ariannol llety dros dro ar y Cyngor.

2) Gall y Cygor wneud cynnig priodol y tu allan i ardal o ddewis pan nad yw ymgeisydd mewn band blaenoriaeth wedi mynegi ffafriaeth dros ardal lle mae cartref yn debygol o ddod ar gael a cheir angen brys i ddarparu tŷ ar gyfer yr ymgeisydd hwnnw.

Bydd pob cynnig ffurfiol yn ysgrifenedig. Gellir gwneud hysbysiad ysgrifenedig trwy lythyr, e-bost neu neges destun mewn sefyllfa frys.

Yn anffodus, mae'n bosibl y bydd amgylchiadau eithriadol lle caiff cynnig ei dynnu'n ôl yn dilyn hysbysiad. Gellir gwneud hyn hyd at yr adeg y bydd cytundeb tenantiaeth yn cael ei lofnodi. Dyma enghreifftiau o resymau pan ellir tynnu'r cynnig o gartref yn ôl:

- Nid yw'r cartref yn addas ar gyfer anghenion yr aelwyd
- Nid yw'r cartref yn dod ar gael
- Ceir problem a phryder ynghylch diogelwch y gymuned
- Mae'n dod i'r amlwg bod gwybodaeth wedi cael ei chadw yn ôl
- Mae'n dod i'r amlwg bod gan yr aelwyd neu aelod o'r aelwyd ddyled sy'n gysylltiedig â thŷ
- Gwnaed y cynnig mewn camgymeriad
- Mae amgylchiadau'r aelwyd wedi newid
- Mae angen y cartref ar gyfer achos brys
- Mae'n dod i'r amlwg na fyddai'r rhent yn fforddiadwy

Y Broses Adolygu

Mae gan gwsmeriaid sy'n dymuno adolygu penderfyniad a wnaed ynghylch eu cais i ymuno â'r gofrestr a phenderfyniadau dilynol penodol hawl i ofyn am adolygiad ffurfiol o'r penderfyniad.

Ceir hawl cyfreithiol i adolygiad o benderfyniad o dan yr amgylchiadau canlynol:

- a) Mae'r cwsmer yn anghytuno â phenderfyniad i beidio â'i roi mewn band neu'n anghytuno â'r band y mae wedi cael ei neilltuo iddo. Mae hyn yn cynnwys pan ddyfernir ffafriaeth ddiwygiedig i ymgeisydd sy'n golygu dyfarniad ffafriaeth is.
- b) Mae'r cwsmer o'r farn bod penderfyniad wedi cael ei wneud yn seiliedig ar wybodaeth anghywir.
- c) Mae'r cwsmer wedi cael ei drin yn anghymhwys ar sail ei statws mewnffudo.
- ch) Maent wedi cael eu trin yn anghymhwys i ymuno â'r gofrestr oherwydd ymddygiad annerbyniol difrifol.
- d) Ni roddwyd unrhyw statws blaenoriaeth i'w blaenoriaeth ar y gofrestr oherwydd ymddygiad annerbyniol.

Y weithdrefn adolygu

1. Bydd cwsmeriaid yn cael eu hysbysu'n ysgrifenedig am benderfyniadau a wneir o ran yr adolygiad.

2. Mae'n rhaid i gwsmeriaid wneud cais am adolygiad o benderfyniad o fewn 21 diwrnod o gael eu hysbysu'n ysgrifenedig, oni bai fod amgylchiadau eithriadol na wnaethant wneud cais am adolygiad yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'n rhaid iddynt roi rhesymau pam maent yn dymuno cael adolygiad o'r penderfyniad, gan gynnwys pan fyddant yn credu bod penderfyniad anghywir wedi cael ei wneud ar sail y ffeithiau.

3. Bydd uwch swyddog yng Nghyngor Bro Morgannwg yn cynnal yr adolygiad. Ni fydd y swyddog hwnnw wedi cymryd rhan yn y broses o wneud y penderfyniad gwreiddiol.

4. Bydd yr adolygiad yn cael ei ystyried ar sail cynllun dyrannu'r awdurdod, unrhyw ofynion cyfreithiol a'r holl wybodaeth berthnasol. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd am unrhyw ddatblygiadau perthnasol ers i'r penderfyniad gwreiddiol gael ei wneud.

5. Nod y Cyngor fydd cwblhau a hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig am y penderfyniad o fewn 21 diwrnod gwaith, ar ôl cymryd unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y cwsmer i ystyriaeth. Fel arall, bydd y cwsmer yn cael ei hysbysu am unrhyw estyniad amser sy'n ofynol i wneud y penderfyniad.

Llety wedi ei addasu'n arbennig a'r Gofrestr Tai Hygyrch

Mae rhai cartrefi wedi cael eu haddasu yn arbennig i ddiwallu anghenion pobl neu mae'n bosibl y gellid eu haddasu i ddiwallu anghenion pobl. Mae hyn yn cynnwys cartrefi i bobl anabl ac i bobl hŷn. Er mwyn sicrhau ein bod yn cyfateb pobl i gartrefi ac yn gwneud y defnydd gorau o lety, gweithredir Cofrestr Tai Hygyrch yn rhan o'r brif gofrestr hefyd.

Datblygwyd Cynllun Cartrefi Hygyrch HOMES4U i gysgysylltu'n well y defnydd effeithiol o'r stoc tai cymdeithasol sy'n hygyrch, neu sydd wedi ei addasu i ddiwallu anghenion penodol aelwydydd lle ceir anabledd a/neu salwch cronig. Ceir llawer o deuluoedd ac unigolion sy'n byw mewn llety amhriodol ar hyn o bryd sydd angen symud i gartrefi sydd wedi eu haddasu'n briodol i gael safon resymol o fyw. Ceir prinder cyffredinol o dai cymdeithasol yn y Fro ac mae hyn yn arbennig o aciwt o ran cartrefi sy'n addas ar gyfer pobl ag anabledd corfforol. Mae hyn yn ei dro yn golygu bod llawer o bobl anabl yn aros am gyfnod annerbyniol i gartref hygyrch addas ddod ar gael. Hefyd, lle'r oedd yr holl gartrefi yn cael eu hysbysebu trwy broses arferol HOMES4U, roedd yn anodd monitro pa un a oedd ystyriaeth benodol yn ymwneud â hygyrchedd i denantiaid anabl yn cael ei chydabod.

Datblygodd y tîm Homes4U Gofrestr Cartrefi Hygyrch sy'n cynnwys manylion a manylebau'r unigolion, y cyplau a'r teuluoedd sydd angen darpariaeth o dai hygyrch.

Sefyllfaoedd pan fydd cynigion o lety yn cael eu gwneud neu eu heffeithio gan bolisiau eraill neu ofynion gweithredol neu reoli

Ceir nifer o sefyllfaoedd pan fydd cynigion o lety yn cael eu gwneud neu eu heffeithio gan bolisiau eraill neu ofynion gweithredol neu reoli. Dyma nhw:

<p>Polisiâu Gosod Tai Lleol (ardaloedd)</p>	<p>Efallai y bydd gan ardaloedd penodol bolisi gosod tai lleol a gytunwyd yn ffurfiol o dan rai amgylchiadau. Byddai polisi gosod tai lleol ar waith i wneud yn siŵr y rhoddir cartrefi yn yr ardal honno mewn ffordd sy'n helpu i fynd i'r afael â materion penodol. Er mwyn cytuno ar bolisi gosod tai lleol, dylid ei seilio ar y prawf canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • diffiniad eglur o'r hyn i'w gyflawni gan y polisi gosod tai lleol • sail dystiolaeth eglur i gefnogi'r angen am y polisi gosod tai lleol • ystyriwyd unrhyw effaith bosibl ar gydraddoldeb • pa mor hir fydd polisi gosod tai lleol yn weithredol • pryd fydd y polisi gosod tai lleol yn cael ei adolygu <p>Mae'n rhaid i bolisi gosod tai lleol gael ei gymeradwyo gan Aelod Bwrdd Gweithredol dros Dai (cyngor) neu Aelod Bwrdd (Cymdeithas Dai) cyn y gellir ei roi ar waith a'i gyhoeddi ar-lein. (Gweler atodiad 3 am ragor o fanylion ar sut y bydd unrhyw bolisi gosod tai lleol yn cael ei ddatblygu, ei gymhwyso a'i adolygu).</p>
<p>Gosodiadau Sensitif (cartrefi unigol)</p>	<p>Gallai cartref unigol fod yn 'osodiad sensitif'. Gallai hyn fod pan fo hanes a gadarnhawyd o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu weithgarwch troseddol yn y cartref hwnnw yn ymwneud â'r tenant blaenorol neu aelodau o'i aelwyd. Bydd cartref yn cael ei enwi fel gosodiad sensitif gyda chymeradwyaeth y Pennaeth Tai (cyngor) neu Reolwr ar lefel gyfatebol (cymdeithas dai) yn unig.</p> <p>Os bydd cartref yn osodiad sensitif, ni fydd aelwydydd penodol yn cael eu hystyried ar gyfer y cartref hwnnw. Ar ôl i'r cartref gael ei osod, ni fydd yn cael ei ddosbarthu fel gosodiad sensitif mwyach.</p>

Atodiad 1: Meini prawf asesu ar gyfer yr adegau hynny pan ddyfernir bod anghenion tŷ ymgeisydd yn perthyn i'r band blaenoriaeth cyntaf ar gyfer ffafriaeth ychwanegol, neu i'r ail fand blaenoriaeth ar gyfer ffafriaeth resymol?

Mae'r cynllun dyrannu hwn wedi'i gynllunio i sicrhau y rhoddir ffafriaeth resymol i'r holl gategorïau canlynol o bobl, fel y nodir yn a.167(2ZA), Deddf Tai 1996:

(i) Pobl sy'n ddigartref (yn unol ag ystyr Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014);

(ii) Pobl y mae ar yr awdurdod lleol ddyletswydd iddynt o dan adrannau 66, 73 neu 75 Deddf Tai (Cymru) 2014;

(iii) Pobl sy'n byw mewn tai afiach neu orlawn neu fel arall sy'n byw mewn amodau tai anfoddfaol o fath arall;

(iv) Pobl sydd angen symud am resymau meddygol neu les, gan gynnwys rhesymau yn ymwneud ag anabledd.

(v) Pobl sydd angen symud i ardal leol benodol yn rhanbarth y Cyngor, pan fyddai methu â diwallu'r angen hwnnw yn achosi caledi (i'w hunain neu i eraill).

Adlewyrchir y grwpiau ffafriaeth resymol hyn yn y Polisi Dyrannu gan ddefnyddio system Fandio. Bydd unrhyw un y dyfernir ffafriaeth resymol iddynt yn ogystal â ffafriaeth ychwanegol i adlewyrchu eu hanghenion tai brys iawn, yn cael eu gosod o fewn y Band Aur Ychwanegol. Dyfernir un ai Band Aur, Arian Ychwanegol neu Arian i bob ymgeisydd arall y mae arnynt ffafriaeth resymol statudol, gan ddibynnu ar asesiad y Cyngor o'u hanghenion tai rhesymol. Mae'r tabl cryno a nodir ym mhrif gorff y Polisi yn cofnodi pryd y dyfernir Bandiau Aur, Arian Ychwanegol neu Arian.

Isod ceir y meini prawf manwl a ddefnyddir i asesu pa un a ddylid dyfarnu un o'r **5** categori ffafriaeth resymol statudol i ymgeisydd a pha Fand a ddyfernir i adlewyrchu hyn. Nodwch, unwaith y dyfernir ffafriaeth resymol i ymgeisydd, ni fydd yn derbyn rhagor o flaenoriaeth pe byddai'n gymwys ar gyfer mwy nag un categori blaenoriaeth oni bai bod ei amgylchiadau o ran tŷ mor frys, fel ei fod yn gymwys ar gyfer dyfarniad ffafriaeth ychwanegol – y Band Aur Ychwanegol.

Grŵp Blaenoriaeth Resymol 1: Pobl sy'n ddigartref yn unol ag ystyr Rhan 2 Deddf Tai Cymru 2014

Amgylchiadau pan ddyfernir Band Aur Ychwanegol (blaenoriaeth ychwanegol)

Ni cheir unrhyw feini prawf ffafriaeth ychwanegol ar gyfer y categori hwn

Amgylchiadau pan ddyfernir Band Aur, Arian Ychwanegol neu Arian i adlewyrchu ffafriaeth resymol

Bydd y cwsmeriaid sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y categori ffafriaeth resymol, yn dilyn asesiad, yn:

- a) Bobl sy'n ddigartref, ac yn dilyn asesiad, y pennir nad oes dyletswydd iddynt o dan adran 75, gan nad oes ganddynt angen blaenoriaethol.
- b) Pobl y mae'r awdurdod wedi cadarnhau eu bod yn cysgu ar y stryd ym Mro Morgannwg.
- c) Ymgeiswyr sy'n byw mewn llety sy'n adeiladwaith symudol, megis carafán, ond nad oes unrhyw le y gallant ei leoli a byw ynddo yn gyfreithlon.
- ch) Ymgeiswyr sydd wedi cyflwyno cais digartrefedd ac y mae unrhyw Gyngor wedi pennu eu bod yn ddigartref ond nad oes dyletswydd iddynt o dan adran 75 gan y canfyddir eu bod yn fwriadol ddigartref. Nodwch: ni roddir blaenoriaeth i'r rheini y canfyddir eu bod yn fwriadol ddigartref ac ni fyddant yn gymwys yn rhinwedd unrhyw ymddygiad annerbyniol a arweiniodd at y penderfyniad i fod yn fwriadol ddigartref. Deuir i benderfyniad ar hyn drwy ddefnyddio'r meini prawf ar gyfer ymddygiad annerbyniol a nodir yn y polisi.

Grŵp Ffafiaeth Resymol 2: Pobl sy'n ddigartref ac y mae ar yr awdurdod lleol ddyletswydd iddynt o dan adran 66, 73 neu 75 Deddf Tai Cymru 2014

Nodwch: Bydd dyfarniad y ffafiaeth resymol ond yn berthnasol os bydd unrhyw un o'r dyletswyddau a restrir yn parhau i fod yn ddyledus. Unwaith na fydd dyletswydd i'r ymgeisydd mwyach, (dyweder er enghraifft pan fo ymgeisydd yr oedd dyletswydd iddynt o dan adran 73, gan ei fod yn ddigartref, ond bod y ddyletswydd honno wedi dod i ben am unrhyw un o'r rhesymau a nodir yn y ddeddfwriaeth gan gynnwys pan fo cyfnod o 56 o ddiwrnodau wedi mynd heibio, ni fydd unrhyw ddyletswydd iddynt wedyn ac ni fydd gan yr ymgeisydd hawl i gael dyfarniad ffafiaeth resymol am y rheswm fod dyletswydd iddo o dan adran 73 er mwyn lliniaru digartrefedd.

Amgylchiadau pan ddyfernir ffafiaeth ychwanegol Band Aur a Mwy Ychwanegol

1 - Milwyr yn y Lluoedd Arfog neu gyn-filwyr yn y lluoedd arfog a gwŷr neu wragedd mewn profedigaeth

Aelodau o'r Lluoedd Arfog a'u teuluoedd sy'n gwasanaethu fel milwyr parhaol y cânt eu rhyddhau o fewn tri mis, neu sydd wedi gwasanaethu yn ystod y pum mlynedd cyn cyflwyno eu cais ar gyfer dyraniad o lety tai yn cynnwys gweddwon a gwŷr gweddw.

2 - Lluoedd Arfog wrth Gefn

Lluoedd arfog wrth gefn sy'n gwasanaethu a'u teuluoedd, y maent wedi profi gwasanaeth gweithredol yn ystod y 5 mlynedd cyn cyflwyno eu cais, gan gynnwys gweddwon a gwŷr gweddw personél sydd wedi'u lladd wrth wasanaethu.

Amgylchiadau pan ddyfernir Band Aur, Arian Ychwanegol neu Arian i adlewyrchu ffafiaeth resymol

Dyma restr o'r ymgeiswyr y dyfernir y ffafriaeth hon iddynt:

- a) Ymgeisydd y mae dyletswydd iddo o dan adran 75 oherwydd eu bod, yn dilyn asesiad, yn gymwys, yn ddigartref, mewn angen blaenoriaethol ac yn anfwriadol ddigartref.
- b) Ymgeiswyr y mae dyletswydd 'dan fygythiad o ddigartrefedd' iddynt o dan adran 66, neu ddyletswydd ddigartrefedd o dan adran 73, er bod hynny dim ond cyhyd ag y mae'r ddyletswydd honno i'r ymgeisydd.
- c) Rhoddir llai o ffafriaeth i ymgeiswyr y mae dyletswydd iddynt o dan adran 66, neu adran 73, neu adran 75 gan Gyngor arall nad yw'n Gyngor Bro Morgannwg, a byddant yn cael eu rhoi ar waelod band blaenoriaeth 2. Cânt eu hystyried ar gyfer cynnig llety dim ond dan yr amgylchiadau pan na fydd unrhyw ymgeisydd arall sydd ym mandiau blaenoriaeth 1 a 2 a chanddynt gysylltiad lleol, wedi mynegi ffafriaeth ar gyfer cartref gwag. Fodd bynnag, maent yn dal yn gallu cael eu hystyried ar gyfer unrhyw gartref nad oes unrhyw un sydd ym mandiau 1 neu 2 wedi cyflwyno cais a chânt eu hystyried ar gyfer unrhyw gartref o'r fath cyn ymgeiswyr sydd ym mand 3.
- ch) Gostyngir blaenoriaeth ymgeiswyr y canfu eu bod yn fwriadol ddigartref, i fand Efydd fel arfer, hyd oni ddatrysir yn llwyddiannus gan yr ymgeisydd hwnnw, y materion sydd wedi arwain at y penderfyniad hwnnw.

Grŵp ffafriaeth resymol 3: Pobl sy'n byw mewn tai afiach neu orlawn neu sydd fel arall yn byw mewn amodau tai anfodhaol

Amgylchiadau pan ddyfernir Band Aur Ychwanegol ar gyfer ffafriaeth ychwanegol

Dyfernir ffafriaeth ychwanegol i gwsmeriaid sydd dan yr amgylchiadau canlynol:

- a) Aelwydydd lle y mae pobl yn byw dan amodau sy'n peri bod risg o niwed difrifol ar fin digwydd a lle y mae'r Awdurdod Lleol wedi cyflwyno Gorchymyn Gwahardd o dan Ran 1 Deddf Tai 2004.
- b) Pan fo dwy ystafell wely neu fwy wedi'u gorlenwi'n ormodol, a fesurir gan y safon ystafelloedd gwely h.y. Pan fo swyddog Awdurdod Lleol wedi gwneud asesiad gan ddefnyddio system Mesur Iechyd a Diogelwch mewn Tai a dod i'r casgliad bod risg difrifol iawn o niwed o ganlyniad i effaith gorlenwi gormodol.
- c) Dymchwel neu Orchymyn Prynu Gorfodol (CPO). Pan fo cartref yr ymgeisydd yn destun dymchweliad neu'n destun Gorchymyn Prynu Gorfodol ar gyfer ailddatblygu.

Nodyn 1: Ar gyfer tenantiaid Darparwr Cofrestredig o Dai Cymdeithasol ym Mro Morgannwg neu du hwnt neu lety cyngor awdurdod lleol arall, caiff y risg o niwed sydd ar ddiwydd ei hasesu gan ystyried y cyfrifoldeb sydd ar y landlord i ddatrys y broblem neu i drosglwyddo'r tenant yn syth. Felly dim ond mewn achos cwbl eithriadol y dyfernir ffafriaeth ychwanegol.

Nodyn 2: Ni roddir ffafriaeth ychwanegol i ymgeiswyr sy'n euog o waethygu eu hamgylchiadau yn fwriadol.

Nodyn 3: Dim ond yn eu prif fan preswyllo y caiff plant eu cynnwys wrth gyfrifo gorlenwi.

Nodyn 4: Diben yr asesu a ddefnyddir gan y Cyngor fydd ystyried y ffeithiau a'r wybodaeth a dderbynnir gan yr ymgeisydd a chan unrhyw adran arall o'r

Cyngor (megis tîm tai y sector preifat) neu gan unrhyw sefydliad arall, a bydd y swyddog sy'n asesu'r effaith yn defnyddio'r prawf a nodir isod.

Gwiriad Asesu 1: Gan ddefnyddio'r ffeithiau sy'n hysbys, bydd y swyddog yn penderfynu beth yw difrifoldeb yr effaith ar yr ymgeisydd a, neu, ar unrhyw aelod arall o'r aelwyd – gallai'r effaith nodweddiadol fod ar iechyd yr ymgeisydd er enghraifft.

Gwiriad Asesu 2: Yna bydd y swyddog yn ystyried beth ellir ei wneud i 1) leihau neu i gael gwared ar yr effaith yn syth a 2) yn y dyfodol agos i leihau neu i gael gwared ar yr effaith e.e. camau y gall y landlord neu'r tîm o fewn y cyngor sy'n gyfrifol am waith gorfodi yn y sector preifat, eu cymryd.

Gwiriad Asesu 3: Bydd y swyddog yn asesu'r effaith newydd sy'n debygol gan ddilyn unrhyw gamau y gellir eu cymryd ar unwaith ac yn y dyfodol agos i leihau neu i gael gwared ar yr effaith a bydd yn penderfynu a oes dal i fod risg o niwed difrifol ar ddigwydd.

Amgylchiadau pan ddyfernir Band Aur, Arian Ychwanegol neu Arian i adlewyrchu ffafriaeth resymol

Dyfernir ffafriaeth resymol i ymgeiswyr dan yr amgylchiadau canlynol:

a) Ymgeiswyr nad oes ganddynt fynediad o gwbl at unrhyw un o'r cyfleusterau canlynol. Dim mynediad at:

a. Ystafell ymolchi neu gegin

b. Toiled mewnol

c. Cyflenwadau dŵr oer a dŵr poeth, trydan, nwy neu wres digonol.

Ni fydd ymgeiswyr y mae ganddynt fynediad at gyfleusterau ar y cyd mewn llety a rennir, yn gymwys o dan y meini prawf hyn.

b) Pobl oedrannus sy'n byw mewn fflatiau yn y sector rhentu preifat neu gyda ffrindiau ar lawr uwchben y llawr gwaelod a hynny heb lifft.

c) Pan fo swyddog y Cyngor wedi pennu bod cartref sector preifat (gyda thenant) yn cynnwys un neu fwy o beryglon Categori 1 difrifol fel y diffinnir gan System Mesur Iechyd a Diogelwch, sy'n cael effaith ddifrifol ar yr aelwyd. Gwneir y dyfarniad mewn cysylltiad â risg sylweddol i iechyd a lles y meddiannydd(wyr), a lle nad oes unrhyw obaith y caiff y materion eu datrys mewn cyfnod o amser y bydd y Cyngor yn ystyried yn rhesymol.

c) Ymgeiswyr sy'n byw dan amodau gorllawn ac, y nodir, yn dilyn asesiad, fod eu hamgylchiadau tai 1 ystafell wely'n fyr o'r hyn sydd ei angen arnynt.

Mae'r safon a ddefnyddir i asesu gorlenwi, fel a ganlyn:

Dylid dyrannu ystafell wely ar wahân ar gyfer yr unigolion canlynol:

- ✓ Unigolyn sy'n byw gydag unigolyn arall fel gŵr a gwraig (boed hynny'n unigolyn o'r un rhyw neu o ryw wahanol).
- ✓ Unigolyn sy'n 16 oed neu'n hŷn.
- ✓ Dau unigolyn o'r un rhyw sy'n iau nag 16 oed.
- ✓ Dau unigolyn (boed hynny o'r un rhyw neu beidio) sy'n iau na 10 oed.

- ✓ Unrhyw un sy'n iau na 16 oed mewn unrhyw achos lle na ellir ei baru â meddiannydd arall.

Nodyn 1: Ar gyfer tenantiaid Darparwr Cofrestredig o Dai Cymdeithasol ym Mro Morgannwg neu'r tu hwnt neu lety cyngor awdurdod lleol arall, caiff y risg o niwed sydd ar ddigwydd ei hasesu gan ystyried y cyfrifoldeb sydd ar y landlord i ddatrys y broblem neu i drosglwyddo'r tenant yn syth. Felly dim ond mewn achos cwbl eithriadol y dyfernir ffafriaeth resymol.

Nodyn 2: Ni roddir ffafriaeth resymol i ymgeiswyr sy'n euog o waethygu eu hamgylchiadau yn fwriadol.

Nodyn 3: Dim ond yn eu prif fan preswyllo y caiff plant eu cynnwys wrth gyfrifo gorlenwi.

Nodyn 4: Diben yr asesu a ddefnyddir gan y Cyngor fydd ystyried y ffeithiau a'r wybodaeth a dderbynnir gan yr ymgeisydd a chan unrhyw adran arall o'r Cyngor (megis tîm tai y sector preifat) neu gan unrhyw sefydliad arall, a bydd y swyddog sy'n asesu'r effaith yn defnyddio'r prawf a nodir isod.

Gwiriad Asesu 1: Gan ddefnyddio'r ffeithiau sy'n hysbys, bydd y swyddog yn penderfynu beth yw difrifoldeb yr effaith ar yr ymgeisydd a, neu, ar unrhyw aelod arall o'r aelwyd – gallai'r effaith nodweddiadol fod ar iechyd yr ymgeisydd er enghraifft.

Gwiriad Asesu 2: Yna bydd y swyddog yn ystyried beth ellir ei wneud i 1) leihau neu i gael gwared ar yr effaith yn syth a 2) yn y dyfodol agos i leihau neu i gael gwared ar yr effaith e.e. camau y gall y landlord neu'r tîm o fewn y cyngor sy'n gyfrifol am waith gorfodi yn y sector preifat, eu cymryd.

Gwiriad Asesu 3: Bydd y swyddog yn asesu'r effaith newydd sy'n debygol gan ddilyn unrhyw gamau y gellir eu cymryd ar unwaith ac yn y dyfodol agos i leihau neu i gael gwared ar yr effaith a bydd yn penderfynu a oes dal i fod risg o niwed difrifol ar ddigwydd.

Grŵp ffafriaeth resymol 4: Pobl y mae angen iddynt symud am resymau meddygol neu les gan gynnwys rhesymau yn ymwneud ag anabledd.

Amgylchiadau pan ddyfernir Band Aur Ychwanegol ar gyfer ffafriaeth ychwanegol am resymau meddygol neu oherwydd anabledd

Dyfernir ffafriaeth ychwanegol i gwsmer sydd ag angen brys ac ar unwaith i symud am resymau meddygol neu o ganlyniad i anabledd, a waethygir gan ei sefyllfa bresennol o ran tŷ.

Bydd swyddog y Cyngor sy'n rhan o'r tîm Asesu Dewisiadau Tai yn cynnal yr asesiad cychwynnol o ran pa un a yw amgylchiadau meddygol yr ymgeisydd yn gymwys ar gyfer dyfarniad ffafriaeth ychwanegol neu ffafriaeth resymol, neu na ddyfernir unrhyw flaenoriaeth iddynt am nad ydynt yn bodloni'r meini prawf. Bydd pob swyddog wedi cael hyfforddiant ar gyfer asesu achosion o'r fath. Byddant yn asesu achosion yn unol â meini prawf clir. Ni asesir iechyd y cwsmer ond sut y mae ei lety yn effeithio ar ei iechyd.

Os yw'r effaith feddygol yn bodoli y tu allan i'r meini prawf a nodir yn y polisi, caiff y swyddog sy'n asesu geisio rhagor o gymorth gan Wasanaeth

Therapyddion Galwedigaethol y Cyngor. Pan ystyrir bod angen, efallai y bydd angen rhagor o wybodaeth gan Feddyg neu Arbenigwr Iechyd yr ymgeisydd.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o achosion a all fod yn gymwys ar gyfer blaenoriaeth ffafriaeth ychwanegol. Mae'n berthnasol ar gyfer yr ymgeisydd neu ar gyfer aelod o'i aelwyd:

- 1) Unigolyn y mae ganddo gyflwr sy'n peryglu bywyd ar unwaith yr effeithir arno yn ddifrifol gan y tai presennol ac y byddai ailgartrefu yn ei gwneud hi'n sylweddol haws i reoli ei gyflwr
- 2) Unigolyn a chanddo salwch difrifol, sy'n derbyn gofal lliniarol ar hyn o bryd ac y mae angen ei ailgartrefu ar frys er mwyn hwyluso darpariaeth barhaus y gofal hwn;
- 3) Unigolyn y mae ganddo gyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd ac y mae ei lety presennol yn effeithio ar ei allu i gadw annibyniaeth neu ei allu i gael gofal digonol;
- 4) Pan fo'r llety yn effeithio mor ddifrifol ar iechyd yr ymgeisydd fel ei fod yn debygol o beryglu bywyd, e.e. pan fo gan yr ymgeisydd broblemau iechyd meddwl difrifol y cânt eu gwaethygu'n sylweddol gan ei lety;
- 5) Unigolyn y mae ganddo gyflwr newydd sy'n newid bywyd ac sy'n amharu'n ddifrifol ar ei symudedd, gan olygu nad yw'n gallu cyflawni ei weithgareddau bob dydd neu ei fod yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar gyfleusterau y tu mewn a'r tu allan i'w lety ac y mae angen ei ailgartrefu mewn llety sy'n addas i'w ddefnyddio;
- 6) Pan fo cartref presennol unigolyn yn peri risg o haint iddo, e.e. pan fo unigolyn yn dioddef o haint HIV datblygedig neu yn hwyr iawn yn ei salwch.
- 7) Pan na chaiff aelod o'r aelwyd ei ryddhau o'r ysbyty hyd oni ddarperir cartref priodol wedi'i addasu.
- 8) Pan na all unigolyn gael mynediad at rannau hanfodol o'r cartref e.e. ystafell ymolchi/toiled, am nad yw'n gallu symud yn hawdd, a bod angen ei ailgartrefu mewn llety addas ar gyfer ei ddefnydd.
- 9) Pan fo aelod o'r aelwyd yn oedrannus neu'n anabl neu gyda salwch cynyddol, ac mae'n debygol y bydd angen ei dderbyn i'r ysbyty neu i ofal preswyl/nyrsio yn y dyfodol agos, ac y byddai ailgartrefu yn galluogi'r unigolyn i aros gartref.
- 10) Personél y lluoedd arfog y mae angen eu symud i lety addasedig priodol oherwydd anaf dirfodol, cyflwr meddygol, neu oherwydd anabledd sydd ganddynt, neu aelod o'u haelwyd, o ganlyniad i wasanaethu.
- 11) Cyn-filwyr y buont yn gwasanaethu'n weithredol o fewn y lluoedd arfog ac sy'n dioddef o anhwylder straen wedi trawma neu salwch difrifol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Lluoedd
- 12) Pobl y mae ganddynt iechyd meddwl difrifol neu anabledd dysgu sy'n effeithio'n sylweddol ar eu gallu i fyw bywyd arferol ac sy'n eu rhoi mewn perygl o gael eu derbyn i'r ysbyty neu i ofal preswyl.
- 13) Pobl sy'n byw mewn cartref symudol, carafán neu gerbyd wedi'i addasu nad yw'n bodloni eu hanghenion, o ganlyniad i gyflyrau meddygol.
- 14) Pan fo'r ymgeisydd neu aelod o'r aelwyd angen addasiadau sylweddol ar gyfer anabledd i fodloni eu hanghenion ac nad yw hynny'n bosibl yn eu llety presennol nac yn gost effeithiol.

Amgylchiadau pan ddyfernir Band Aur, Arian Ychwanegol neu Arian i adlewyrchu ffafriaeth resymol

Os bodlonir y meini prawf a nodir, dyfernir blaenoriaeth ffafriaeth resymol i gwsmeriaid y mae eu tai yn anaddas am resymau meddygol difrifol, neu oherwydd anabledd, ond nad ydynt yn gaeth i'w cartref, nac y mae eu hiechyd na'u diogelwch mewn cymaint o berygl fel bod angen tai brys ar unwaith arnynt.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau a fydd yn gymwys ar gyfer blaenoriaeth ffafriaeth resymol:

- 1) Plant y mae ganddynt gyflyrau difrifol megis awtistiaeth, neu barlys yr ymennydd pan na ellir bodloni eu hanghenion hirdymor heb lety sefydlog.
- 2) Unigolyn y mae ei anabledd yn golygu y byddai ailgartrefu yn galluogi iddo oresgyn rhwystrau ffisegol a achosir gan eu llety presennol e.e. grisiau.
- 3) Unigolyn a chanddo anabledd difrifol y mae angen addasiadau sylweddol i gartref na ddarperir yn ei lety presennol.
- 4) Unigolyn y mae ganddo salwch terfynol neu gyflwr meddygol gwanychol hirdymor nad yw ei lety presennol yn cael effaith sylweddol ar ei gyfer ond y byddai ansawdd ei fywyd yn gwella llawer o symud i lety sefydlog arall a all fod yn agosach at gymorth neu beidio.

Amgylchiadau pan ddyfernir Band Aur a Mwy ar gyfer ffafriaeth ychwanegol am resymau lles.

1 – Cam-drin domestig, trais eithafol neu aflonyddu eithafol.

Dyfernir ffafriaeth ychwanegol i ymgeiswyr sydd angen symud ar unwaith o ganlyniad i gam-drin domestig, trais eithafol neu aflonyddu eithafol. Mae hyn yn cynnwys trosedd casineb, aflonyddu trawsrywiol, homoffobig, hiliol neu oherwydd anabledd, a chaiff ei dyfarnu ar gyfer amgylchiadau eithriadol pan fo risg sylweddol i ddiogelwch y tenant neu ei deulu os byddant yn aros yn y cartref/ardal ac felly y mae angen iddynt symud ar unwaith.

Cynhelir yr asesiad gan uwch swyddog yn y Cyngor a bydd yn seiliedig ar dystiolaeth a ddarperir gan y cwsmer ac asiantaethau gwirfoddol a statudol priodol eraill. Byddai hyn yn cynnwys, yr Heddlu, y Gwasanaethau Cymdeithasol, atgyfeiriadau gan y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC), sefydliadau Cam-drin Domestig a grwpiau cefnogi Lesbiaid a Hoywon.

Bydd y Cyngor yn asesu achosion tenantiaid mewn cartref sy'n perthyn i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ym Mro Morgannwg neu yn rhywle arall sy'n gwneud cais am lety oherwydd mater brys yn ymwneud â lles megis aflonyddu, gan ystyried y cyfrifoldeb ar y landlord hwnnw i ddatrys y broblem neu i drosglwyddo ei denant er mwyn datrys y broblem. Felly, dim ond mewn achos cwbl eithriadol y dyfernir ffafriaeth ychwanegol neu ffafriaeth resymol.

2 – Symud ymlaen o brosiectau tai â chymorth

Dyfernir ffafriaeth ychwanegol i ymgeiswyr sy'n symud ymlaen o restr benodedig o brosiectau tai â chymorth, os byddant yn bodloni'r meini prawf canlynol:

Mae'n rhaid iddynt fod yn agored i niwed ac mae'n rhaid bod ganddynt angen brys am dai a fodlonir orau drwy ddarparu tai sefydlog hirdymor. Er mwyn cymhwyso ar gyfer y ffafriaeth ychwanegol hon, bydd y darparwr cymorth yn darparu Ffurflen Gais Symud Ymlaen o Lety â Chymorth wedi'i llenwi, a fydd yn darparu tystiolaeth a ddefnyddir gan y Cyngor i asesu pa un a yw'r ymgeisydd:

- a) Wedi cwblhau'n llwyddiannus o leiaf 6 mis yn rhan o'r cynllun tai â chymorth (ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol a brofir, pan gaiff cyfnod llai o amser ei ystyried).
- b) Yn barod i symud i lety sefydlog annibynnol ac y mae'n ofynnol iddo gan y prosiect symud ymlaen er mwyn rhyddhau'r uned ar gyfer unigolyn arall mewn angen.
- c) Gyda phe cyn cymorth wedi'i asesu ac sy'n cael ei weithredu.

Nodwch ar gyfer y rhan fwyaf o bobl, er mwyn symud ymlaen o lety â chymorth, efallai y cynigir llety yn y sector rhentu preifat yn hytrach na chynnig tai cymdeithasol.

Pan nodir bod pobl angen symud ymlaen, yn dilyn asesiad, ond nid ydynt yn gwneud cais, efallai y bydd y Cyngor yn gwneud cais ar eu rhan neu efallai y gwneir cynnig uniongyrchol o lety.

Gall cwsmeriaid gofrestru wrth iddynt symud i lety â chymorth ac os ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer band blaenoriaeth, dyfernir y band blaenoriaeth iddynt pan fo tystiolaeth fod yr unigolyn yn barod i symud ymlaen ac y gall gynnal tenantiaeth. Os na fydd unigolyn yn barod i symud ymlaen yn dilyn asesiad a'i fod yn annhebygol o allu cynnal tenantiaeth, caiff ei atal hyd oni asesir ei fod yn barod i symud ymlaen ac y gall gynnal tenantiaeth.

3 – Pobl ifanc yn symud ymlaen o Ofal.

Dyfernir ffafriaeth ychwanegol i bobl ifanc mewn gofal ac sy'n barod i adael gofal y cânt eu hatgyfeirio gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn unol â phrotocol ar y cyd.

Gwneir atgyfeiriadau pan fo unigolyn ifanc yn barod i adael gofal. Dyma'r meini prawf ar gyfer dyfarniad ffafriaeth ychwanegol:

- a) Mae'r unigolyn ifanc yn barod i symud i dŷ sefydlog annibynnol ac mae'n wirioneddol barod i symud i fyw'n annibynnol.
- b) Mae ganddo'r sgiliau bywyd i reoli tenantiaeth gan gynnwys rheoli cyfrif rhent.
- c) Mae'r unigolyn ifanc angen cefnogaeth ganolog neu hirdymor â thenantiaeth.
- ch) Mae'r pecyn cymorth wedi'i asesu ac yn cael ei weithredu.

Nodwch ar gyfer y rhan fwyaf o bobl, er mwyn symud ymlaen o lety â chymorth, efallai y cynigir llety yn y sector rhentu preifat yn hytrach na chynnig tai cymdeithasol.

Pan nodir bod pobl angen symud ymlaen, yn dilyn asesiad, ond nid ydynt yn gwneud cais, efallai y bydd y Cyngor yn gwneud cais ar eu rhan neu efallai y gwneir cynnig uniongyrchol o lety.

4 - Priod neu bartner sifil y rhai sy'n gwasanaethu yn y Fyddin Dirioogaethol neu fel milwyr parhaol, sydd mewn profedigaeth

Pan ellir priodoli marwolaeth eu priod neu eu partner (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) i'w gwasanaeth ac nid oes gan y priod neu'r partner sifil sydd mewn profedigaeth hawl i breswyllo mewn llety y Weinyddiaeth Amddiffyn mwyach.

5 - Pan fo ymgeisydd eisiau symud o gartref wedi'i addasu a fyddai o fudd i aelwyd arall sydd angen addasiadau

Pan fo ymgeisydd yn denant cartref tai cymdeithasol sydd wedi'i addasu neu sy'n addas i'w addasu, a phan fo'r Cyngor yn penderfynu y byddai o fudd i aelwyd arall sydd angen cartref wedi'i addasu neu y gellir ei addasu, ac ystyrir bod y cartref hwnnw'n gartref addas i fodloni anghenion ymgeisydd arbennig.

Amgylchiadau pan ddyfernir Band Aur, Arian Ychwanegol ac Arian i adlewyrchu ffafriaeth resymol

Bydd y grwpiau canlynol yn gymwys ar gyfer ffafriaeth resymol am resymau lles:

1 - Ffafriaeth resymol ar gyfer caledi ariannol

Dyfernir ffafriaeth resymol ar gyfer achosion o galedi ariannol, yn dilyn asesiad, pan fo ymgeisydd yn byw yn y sector rhentu preifat. Diffinnir hyn yn y polisi fel teuluoedd sy'n gweithio y mae lefelau eu hincwm a'r oriau y maent yn gweithio yn gymwys ar gyfer Credydau Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio ac sy'n ei chael hi'n anodd bodloni'u costau tai yn y sector rhentu preifat.

Grŵp ffafriaeth resymol 5: Pobl sydd angen symud i ardal leol benodol yn rhanbarth y Cyngor, lle y byddai methu â bodloni'r angen hwnnw'n arwain at galedi (iddynt eu hunain ac i eraill).

Amgylchiadau pan ddyfernir Band Aur ar gyfer ffafriaeth ychwanegol

Ni cheir unrhyw feini prawf ffafriaeth ychwanegol ar gyfer y categori hwn

Amgylchiadau pan ddyfernir Band Aur, Arian Ychwanegol neu Arian i adlewyrchu ffafriaeth resymol

Dyma'r categorïau o bobl y dyfernir ffafriaeth resymol iddynt am resymau yn ymwneud â chaledi:

- a) Pobl sydd angen symud at ddibenion cyflogaeth
- b) Pobl sydd angen symud yn agos at berthnasau i roi cymorth neu i dderbyn cymorth
- c) Pobl sydd angen symud i gael gafael ar driniaeth feddygol/cyfleusterau gwasanaethau cymdeithasol

a) Caledi o ran Cyflogaeth - Rhoddir blaenoriaeth dan amgylchiadau eithriadol yn unig a bydd angen i gwsmeriaid ddangos bod angen iddynt symud er mwyn parhau i weithio neu i fanteisio ar gyfle cyflogaeth nad yw ar gael yn rhywle arall. Cânt ond eu hystyried lle nad ydynt yn bwy o fewn pellter teithio rhesymol a bydd angen iddynt ddarparu cadarnhad o fanylion cyflogaeth gan eu cyflogwr.

b) Caledi o ran Cymorth - Rhoddir blaenoriaeth dan amgylchiadau eithriadol yn unig a bydd angen i gwsmeriaid ddangos:

Eu bod angen cymorth sylweddol a pharhaus gan berthnasau neu ffrindiau neu ei bod hi'n hanfodol eu bod nhw'n rhoi cymorth sylweddol a pharhaus i berthnasau. Bydd hyn ond yn cael ei ystyried pan geir mater yn ymwneud ag iechyd meddwl difrifol, mater meddygol neu fater yn ymwneud â lles ac y ceir rhesymau pam na ellir darparu na chynnal y cymorth hwn drwy ddibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus neu drafnidiaeth gan ddefnyddio car personol y cwsmer.

Mae enghreifftiau o'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn asesu'r flaenoriaeth yn cynnwys:

- Cadarnhad o enw a chyfeiriad yr unigolyn sydd i ddarparu'r cymorth a'r unigolyn sydd i dderbyn y cymorth
- Tystiolaeth o'u hanghenion gofal (Meddyg, Gwasanaethau Cymdeithasol)
- Tystiolaeth o gysylltiadau â grwpiau cymorth
- Mathau eraill o gymorth a gofal sydd ar gael i'r ymgeisydd neu'r unigolyn yr honnir ei fod angen cymorth.
- Budd-daliadau yn ymwneud ag unrhyw anabled neu ofal. Gwybodaeth am Lwfans Byw i'r Anabl

c) Unigolion sydd angen symud i gael gafael ar driniaeth feddygol/cyfleusterau gwasanaethau cymdeithasol

Rhoddir blaenoriaeth dan amgylchiadau eithriadaol yn unig a bydd angen i gwsmeriaid ddangos bod ganddynt angen i gael gafael ar ofal meddygol a/neu gyfleusterau'r gwasanaethau cymdeithasol. Bydd angen iddynt ddangos hefyd na ellir bodloni'r angen hwnnw drwy ddibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus, trafnidiaeth y cwsmer ei hun, na thrwy ddarpariaeth a weithredir gan wasanaethau cymdeithasol ac iechyd. Bydd y Cyngor yn ystyried y prawf canlynol:

- Cadarnhad o enw a chyfeiriad y ddarpariaeth feddygol neu gymdeithasol y maen nhw angen cael gafael arni
- Tystiolaeth o'u hanghenion gofal (Meddyg, Gwasanaethau Cymdeithasol)
- Tystiolaeth nad oes unrhyw ddarpariaethau eraill ar gael ac na ellir darparu unrhyw gymorth i'w galluogi nhw i gael gafael ar y Gwasanaeth
- Penderfyniad gan y Cyngor fod yr angen i gael gafael ar y driniaeth feddygol/cyfleusterau'r gwasanaethau cymdeithasol yn hanfodol

Pryd y dyfernir Llai o Ffafiaeth?

O dan rai amgylchiadau, gall y Cyngor ddyfarnu dim blaenoriaeth neu flaenoriaeth wedi'i haddasu (cyfeirir ati'n gyffredin fel llai o ffafiaeth) i

ymgeiswyr a fyddai'n cael Band Aur Ychwanegol, Aur neu Arian Ychwanegol. Nodir y rheolau yn ymwneud ag adegau pan na ddyfernir blaenoriaeth oherwydd ymddygiad annerbyniol, yn adran gymhwysedd atodiad 2.

Rheswm 1: Dim Cysylltiad Lleol

Bydd y Cyngor yn rhoi llai o ffafriaeth i ymgeisydd y mae ei anghenion tai yn gymwys ar gyfer ffafriaeth resymol, ond nad oes ganddo gysylltiad lleol â Bro Morgannwg.

Rhoddir eithriad i'r rhai y mae dyletswydd adran 73 NEU adran 75 iddynt o dan Ddeddf Tai Cymru 2014, ond nid y rheini y mae dyletswydd adran 66 iddynt. Dyfernir Band Efydd i'r holl bobl hynny nad oes ganddynt gysylltiad lleol ac eithrio adran 73 NEU adran 75.

Ni ddyfernir ffafriaeth ychwanegol i ymgeiswyr nad oes ganddynt gysylltiad lleol y byddai eu hanghenion tai yn gymwys ar gyfer band ffafriaeth ychwanegol o dan y cynllun, oni bai bod y Cyngor yn ystyried eu hamgylchiadau yn gwbl eithriadol. Y Rheolwr Gwasanaeth sy'n gyfrifol am weithrediad y cynllun fydd yn dod i benderfyniad ar hyn fesul achos.

Diffinnir cysylltiad lleol â Bro Morgannwg fel un o'r canlynol:

- a) Wedi byw ym Mro Morgannwg am 3 blynedd o'r 5 mlynedd flaenorol, neu 6 mis o'r flwyddyn ddiwethaf
- b) Gwaith cyflogedig parhaol llawn amser ym Mro Morgannwg, ar yr amod bod yr ymgeiswyr wedi bod yn y swydd am o leiaf 6 mis cyn ymgeisio i fod ar y gofrestr
- c) Cysylltiadau teuluol agos ym Mro Morgannwg, h.y. rhieni a brodyr a chwiorydd neu gyfwerth ac mae'r ymgeisydd mewn cysylltiad agos rheolaidd gyda'r aelod hwnnw o'i deulu.
- ch) Rhesymau eraill arbennig iawn a bennir yn ôl y ffeithiau fesul achos.

Dyfernir Band Arian i ymgeisydd sy'n gymwys ar gyfer dyfarniad ffafriaeth resymol ond nad oes ganddo gysylltiad lleol â Bro Morgannwg fel y diffinnir uchod.

Adnoddau Ariannol

Bydd HOMES4U yn ystyried adnoddau ariannol yr ymgeisydd mewn achosion lle y byddai'r ymgeisydd yn gymwys ar gyfer ffafriaeth resymol, wrth iddo benderfynu pa un a ddylid lleihau'r ffafriaeth honno. Rhoddir ystyriaeth i unrhyw adnoddau pa le bynnag yn y byd y maent wedi'u lleoli.

Mae'r categori hwn yn berthnasol i aelwydydd y mae eu cyfanswm incwm gros o bob ffynhonnell yn fwy na'r trothwy ar gyfer cyfradd uwch y dreth incwm (a gyfrifir ar hyn o bryd yn £31.786) neu aelwydydd y mae eu cynilon neu eu hasedau cyfalaf yn fwy na £120,000. Bydd asedau yn cynnwys ecwiti mewn unrhyw gartref a berchnogir. Dyfernir y band llai o ffafriaeth i geisiadau o'r fath, a fydd yn golygu y byddant yn annhebygol o dderbyn blaenoriaeth ddigonol ar gyfer dyfarniad hyd oni roddir cartref i bob ymgeisydd a chanddynt flaenoriaeth uwch.

Mae hyn yn annhebygol o ddigwydd gan y bydd ymgeiswyr a chanddynt flaenoriaeth uwch yn parhau i ymuno â'r gofrestr. Nid yw'r cyfyngiad hwn yn atal ymgeiswyr rhag cael eu hystyried ar gyfer unrhyw gynlluniau Perchentyaeth Cost Uchel/Rhannu Ecwiti. Mae'r rheolau ar gyfer derbyn o dan y cynlluniau hyn yn wahanol a chânt eu gweithredu fesul cynllun. Gweinyddir llawer o gynlluniau o'r fath yn uniongyrchol gan Gymdeithasau Tai a gall y Tîm HOMES4U roi cyngor ar unrhyw un o'r dewisiadau hyn.

Dim Cyfeiriad Parhaol yn y DU

Caiff ymgeiswyr nad ydynt yn byw yn barhaol yn y DU ar hyn o bryd, ond sydd yn gymwys ar gyfer tai, eu gosod o fewn y band llai o ffafriaeth.

Ymgeiswyr y mae ar Gyngor arall yng Nghymru neu yn Lloegr ddyletswydd Ddigartrefedd iddynt o dan Ddeddf Tai Cymru 2014 neu o dan Ddeddf Tai 1996

Rhoddir llai o flaenoriaeth i ymgeiswyr y mae ar Gyngor arall yng Nghymru ddyletswydd iddynt o dan adran 66, neu adran 73, neu adran 75 neu y mae ar Gyngor yn Lloegr neu'r Alban ddyletswydd ddigartrefedd lawn iddynt. Hynny yw, unrhyw Gyngor nad yw'n Gyngor Bro Morgannwg.

Atodiad 2: Gwybodaeth fanwl am y rheolau a gymhwysir i benderfynu pa un a yw ymgeisydd yn gymwys i ymuno â'r rhestr.

Y rheolau Cymhwysedd a bennir gan y polisi

Pan fo unigolyn yn gwneud cais ond bennir ei fod yn anghymwys o ganlyniad i gymhwyso rheolau'r Llywodraeth ar gyfer dyrannu llety tai i unigolion o dramor neu unigolion sy'n destun rheolaeth fewnfudo, ni fyddant yn gallu ymuno â'r gofrestr. Mae'r rheolau'n gymhleth a gall unrhyw un yr effeithir arno neu y mae'n credu efallai yr effeithir arno gan y rheolau, gysylltu â'r Cyngor am gyngor arnynt.

Mae adran 166(3) Deddf Tai 1996 yn gorfodi'r Cyngor i ystyried pob cais ar gyfer tai cymdeithasol a wneir yn unol â gofynion gweithdrefnol y polisi hwn. Fodd bynnag, wrth ystyried ceisiadau, mae'n rhaid iddo ganfod a yw ymgeisydd yn gymwys ar gyfer llety neu a gaiff ei wahardd rhag cael dyfarniad o dan adran 160A yr un Ddeddf.

Mae'r canlynol yn grynodeb o'r prif gategoriâu o ymgeiswyr cymwys y caiff y Cyngor ddyrannu llety iddynt o dan Ran VI Deddf Tai 1996, gan ystyried eu cenedligrwydd a'u statws mewnfudo. I weld y meini prawf llawn, cyfeiriwch at Bennod 2, Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd 2015:

- (i) Tenantiaid presennol;
- (ii) Unigolyn o dramor ac eithrio unigolyn sy'n destun mewnfudo; ac
- (iii) Unigolion sy'n destun rheolaeth fewnfudo a ragnodwyd eu bod yn gymwys.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhagnodi dosbarthiadau o bobl sydd i'w hystyried yn gymwys o dan Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysra) (Cymru) 2014. Dyma nhw:

- (i) Ffoaduriaid;
- (ii) Caniatâd eithriadol;
- (iii) Unigolyn a chanddo ganiatâd cyfredol i ddod i'r DU neu i aros yno heb unrhyw amod neu gyfyngiad, ac sy'n preswyl fel arfer yn y DU, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon;
- (iv) Unigolion y rhoddir Diogelwch Dyngarol iddynt; a
- (v) Bydd dinesydd Afghanistan y rhoddir caniatâd iddo ail-leoli i'r DU, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon o ganlyniad i wasanaethau yn rhan o Lywodraeth y DU, ac sy'n preswyl fel arfer yn un o'r ardaloedd hynny, yn gymwys.

Ni fydd ceisiadau a dderbynnir gan geiswyr lloches yn gymwys i gael eu derbyn ar y gofrestr tai cyffredin hyd oni dderbynnir penderfyniad cadarnhaol o ran eu cais am loches ac y dyfernir iddynt statws ceisiwr lloches, diogelwch dyngarol neu ganiatâd yn ôl disgrisiwn i aros.

Ddim yn gymwys oherwydd ymddygiad annerbyniol.

Pan fo'r Cyngor yn fodlon, o dan adran 160A(7) Deddf Tai 1996, fod ymgeisydd neu aelod o'u haelwyd arfaethedig, yn euog o ymddygiad annerbyniol sy'n ddigon difrifol i'w gwneud yn anaddas i fod yn denant, efallai y bydd yn ystyried yr ymgeisydd yn anghymwys i gael dyraniad tai cymdeithasol drwy'r cynllun ac ni roddir unrhyw flaenoriaeth iddo, er hynny, caiff yr ymgeisydd ei gofrestru ar Gofrestr Tai'r Cyngor ar gyfer y cynllun dyrannu. Gwneir pob penderfyniad gan y Panel Asesu Gosodiadau a Gwaharddiadau.

Mae adran 160A(8) Deddf Tai 1996 yn nodi mai'r unig ymddygiad a gaiff ei ystyried yn annerbyniol at y dibenion hyn, yw ymddygiad gan yr ymgeisydd neu gan aelod o'i aelwyd, pe byddent yn denantiaid diogel i'r awdurdod lleol ar y pryd, a fyddai wedi rhoi'r hawl i'r awdurdod lleol ddefnyddio gorchymyn adennill meddiant o dan adran 84 Deddf Tai 1985 yn ymwneud ag unrhyw un o'r seiliau dewisol yn Rhan I Atodlen 2, ar wahân i Sail 8. Seiliau cysylltiedig â diffyg yw'r rhain ac maent yn cynnwys ymddygiad megis:

- (i) peidio â thalu rhent;
- (ii) torri amodau'r denantiaeth;
- (iii) ymddygiad sy'n debygol o achosi niwsans neu flinder; a
- (iv) defnyddio'r cartref at ddibenion anfoesol neu anghyfreithlon.

Nid oes angen i'r ymgeisydd fod wedi bod yn denant o'r awdurdod lleol mewn gwirionedd pan ddigwyddodd yr ymddygiad annerbyniol. Y prawf yw, a fyddai'r ymddygiad wedi rhoi'r hawl i'r awdurdod lleol gael dyletswydd adennill meddiant pe byddai'r ymgeisydd wedi bod yn denant diogel, boed mewn gwirionedd neu'n dybiannol.

Nodir ymgeiswyr yn ysgrifenedig o benderfyniad y cyngor eu bod yn anghymwys oherwydd:

1. Cymhwyso rheolau Llywodraeth Cymru ar gyfer dyrannu llety tai i bobl o dramor neu bobl sy'n destun rheolaeth fewnfudo; Neu
2. Eu bod yn anghymwys ar sail ymddygiad annerbyniol.

Bydd gan ymgeiswyr yr hawl i ofyn am adolygiad o unrhyw benderfyniad a wneir gan y Cyngor ynglŷn â'u cymhwysedd o fewn 21 diwrnod calendr o gael eu llythyr hysbysu.

Defnyddir y meini prawf i asesu ymddygiad annerbyniol.

Ymddygiad difrifol neu ôl-ddyledion rhent blaenorol: y rheolau a gymhwysir

Bydd hyn yn berthnasol pan fo gan ymgeisydd, neu unrhyw aelod o'i aelwyd bresennol neu arfaethedig, hanes o ymddygiad difrifol neu ôl-ddyledion rhent blaenorol, sy'n gwneud yr ymgeisydd yn anaddas i fod yn denant ym marn y Cyngor, nes y caiff y mater ei ddatrys er boddhad y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:

- Lefel yr ôl-ddyledion rhent blaenorol neu bresennol a/neu ddyled adenilladwy yn ymwneud â thai. (Gweler isod sut y cymhwysir y rheolau hyn)
- Ymddygiad difrifol yn cynnwys peidio â chydymffurfio â chytundeb tenantiaeth cyfredol neu flaenorol. (Gweler isod sut y cymhwysir y rheolau hyn).
- Pan fo'r ymgeisydd, neu unrhyw aelod arall o'r aelwyd, wedi ymosod ar aelod o staff ac y ceisir gwaharddeb neu fod un wedi'i chael yn barod
- Pan fo'r ymgeisydd, neu unrhyw aelod o'r aelwyd, wrth ymateb i gais rhesymol am wybodaeth, wedi rhoi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol, neu wedi dal gwybodaeth yn ôl, gan wybod hynny.

A decision will be taken by the Council on the facts whether the unacceptable behavior either:

Bydd y Cyngor yn gwneud penderfyniad yn seiliedig ar y ffeithiau o ran a yw'r ymddygiad annerbyniol un ai:

- 1) Mor ddifrifol fel bod yr ymgeisydd yn anghymwys i ymuno â'r gofrestr, neu
- 2) Nid yw mor ddifrifol fel bod yr ymgeisydd yn anghymwys i ymuno â'r gofrestr, ond ei fod yn ddigon difrifol fel ei fod yn dod o dan y meini prawf a nodir yn y polisi dyrannu pan na ddyrennir unrhyw flaenoriaeth i'r ymgeisydd ac ni roddir cynnig o lety iddo nes ei fod wedi mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch ymddygiad annerbyniol er boddhad y Cyngor.

Rhoddir ystyriaeth lawn i'r prawf cymhwysedd a nodir yn Adran 160A(8) Deddf Tai 1996, wrth benderfynu nad yw ymgeisydd yn gymwys i ymuno â'r gofrestr neu'n gymwys ond heb ddyrannu unrhyw flaenoriaeth iddo. Mae hyn yn cynnig mai'r unig ymddygiad y gellir ei ystyried yn annerbyniol at y dibenion hyn yw ymddygiad gan yr ymgeisydd neu gan aelod o'i aelwyd a fyddai, pe byddent yn denantiaid diogel yr awdurdod lleol ar y pryd, wedi rhoi hawl i'r awdurdod lleol ddefnyddio gorchymyn adennill meddiant o dan adran 84 Deddf Tai 1985 mewn cysylltiad â seiliau dewisol yn Rhan 1 Atodlen 2, ar wahân i Sail 8

Nodir isod y canllawiau ar gyfer y meini prawf a gymhwysir i benderfynu a yw ymgeisydd yn anghymwys oherwydd ymddygiad annerbyniol, neu benderfynu bod yr ymgeisydd yn gymwys ond ni ddyfernir unrhyw flaenoriaeth iddo hyd oni ymdrinnir yn foddhaol â'r pryderon.

1 – Y meini prawf i'w cymhwyso er mwyn ystyried a yw ymgeisydd yn anghymwys, (neu yn gymwys er y dyfernir band Efydd iddo, ond yn anghymwys i gael cynnig llety drwy'r cynllun) oherwydd ôl-ddyledion rhent presennol neu flaenorol neu unrhyw ddyled yn ymwneud â thai sy'n adenilladwy.

At ddiben y polisi hwn, bydd y Cyngor, wrth gynnal asesiad, yn ystyried pob dyled yn ymwneud â chartref sy'n adenilladwy a heb rwystr statud. Mae hyn yn cynnwys unrhyw:

- (i) ôl-ddyledion rhent presennol neu flaenorol yn ymwneud â thenantiaeth;
- (ii) Atgyweiriadau ad-daladwy heb eu gwneud;

- (iii) ôl-ddyledion taliadau gwasanaeth presennol neu flaenorol yn ymwneud â thai;
- (iv) ôl-ddyledion tâl yn ymwneud â llety gwely a brecwast neu lety dros dro arall
- (v) gordaliadau budd-dal tai;
- (vi) chostau llys cysylltiedig.

Mae dyledion adenilladwy sy'n gysylltiedig â chartref yn berthnasol i'r ymgeisydd ac i unrhyw aelod o'i aelwyd a gynhwysir yn ei gais am dŷ.

Cymhwysir y weithdrefn ganlynol ar gyfer ymgeiswyr y mae eu hanghenion tai yn golygu y dyfernir band blaenoriaeth iddynt ond bod ganddynt ôl-ddyledion rhent presennol neu flaenorol, neu unrhyw ddyled adenilladwy yn ymwneud â thai:

- Penderfyniad yw hwn a wneir gan y Panel Asesu Gosodiadau a Gwaharddiadau
- Bydd y Cyngor yn ystyried a oes gan yr ymgeisydd ôl-ddyledion/ddyled o hyd, ac os oes ganddo, faint o ôl-ddyledion/dyled sydd ganddo a pha un a oes unrhyw ddyled sy'n ymwneud â thai yn adenilladwy.
- Gall unrhyw ôl-ddyledion/dyledion adenilladwy sy'n fwy na £500 olygu bod yr ymgeisydd yn anghymwys ar gyfer dyraniad yn rhan o'r cynllun, yn dibynnu ar lefel yr ôl-ddyledion. Fodd bynnag, lle bo'n bosibl, caniateir i'r ymgeisydd ymuno â'r gofrestr ond ni ddyfernir unrhyw flaenoriaeth iddo hyd oni delir yr ôl-ddyledion/dyledion. Golyga hyn, ar ôl talu'r ôl-ddyledion, y caiff ymgeisydd a fyddai wedi cael dyfarniad band blaenoriaeth aur neu arian ymuno â'r band hwnnw ar y dyddiad yr ymunodd â'r gofrestr ac nid y dyddiad y talwyd yr ôl-ddyledion/dyledion.
- Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried a yw'r hawlydd wedi dilyn cyngor ar ddyledion, ac ymrwmo i unrhyw drefniant i gael gwared ar yr ôl-ddyledion ac wedi cychwyn ei weithredu.
- Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried a oes trefniant wedi'i wneud, symiau o'r ôl-ddyledion sydd wedi'u talu, unrhyw ddyled sydd ar ôl, a pha mor rheolaidd y gwneir unrhyw daliadau.

Pan fo'r ôl-ddyledion rhent presennol neu flaenorol neu unrhyw ddyled adenilladwy yn ymwneud â thai sy'n fwy na £500 yn bodoli, bydd yn rhaid i ymgeisydd y canfyddir ei fod yn anghymwys, neu ymgeisydd sy'n gymwys ond na ddyfernir unrhyw flaenoriaeth iddo, fodloni'r meini prawf canlynol cyn y gellir eu hystyried i fod yn gymwys yn rhan o gais diweddarach neu i gael gwared ar y statws dim blaenoriaeth. Bydd angen iddynt fod wedi:

- (i) Ymrwmo i gynllun ad-dalu
- (ii) Cyflawni o leiaf 13 o daliadau wythnosol yn olynol, ar lefel gytunedig; a
- (iii) Ad-dalu o leiaf 25% o'r ddyled.

Gellir ond osgoi'r broses hon pan ad-delir y ddyled yn llawn. Er mwyn annog rheolaeth ariannol dda ac i annog ymgeiswyr i beidio â defnyddio benthycwyr carreg drws, sy'n rhoi benthyciadau a chanddynt gyfraddau llog eithriadol o uchel, ni fyddai cyfandaliadau mwy na 25% o gyfanswm y ddyled yn berthnasol oni bai bod y cyfnod ad-dalu sydd o leiaf 13 o wythnosau, wedi'i fodloni. Gall

eithriad i'r rheol hon fod yn berthnasol i aelwydydd y cânt eu lletya mewn llety dros dro gan y Cyngor.

Caniateir i ymgeiswyr a chanddynt ddyled yn ymwneud â thai hyd at £500, fod yn gymwys os yw eu hanghenion neu eu hamgylchiadau tai yn gymwys, ond efallai y dyfernir dim blaenoriaeth iddynt (yn dibynnu ar lefel y ddyled a'r camau gweithredu y maent wedi ymrwymo i'w cymryd i dalu'r ddyled honno) a byddant ond yn cael eu hystyried ar gyfer tai ar yr amod eu bod wedi cytuno ar gynllun ad-dalu ac yn ei ddilyn yn weithredol. Fel arfer, byddai ymlyniad yn golygu ymlyniad wrth gynllun ad-dalu dros gyfnod o 13 o wythnosau. Gellir ond osgoi'r broses hon pan ad-delir y ddyled yn llawn. Er mwyn annog rheolaeth ariannol dda ac i annog ymgeiswyr i beidio â defnyddio benthycwyr carreg drws, sy'n rhoi benthyciadau a chanddynt gyfraddau llog eithriadol o uchel, ni fyddai cyfandaliadau mwy na 25% o gyfanswm y ddyled yn berthnasol oni bai bod y cyfnod ad-dalu sydd o leiaf 13 o wythnosau, wedi'i fodloni.

2 - Y meini prawf i'w cymhwyso er mwyn ystyried a yw ymgeisydd yn anghymwys neu yn gymwys er y dyfernir band Efydd iddo am ymddygiad difrifol yn cynnwys peidio â chydymffurfio â chytundeb tenantiaeth presennol neu flaenorol:

Mae hyn yn berthnasol pan fo'r Cyngor, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, yn fodlon bod ymgeisydd (neu aelod o'i aelwyd bresennol neu arfaethedig) wedi:

1. Methu â glynu wrth delerau unrhyw gytundeb tenantiaeth tai cymdeithasol neu'r sector rhentu preifat presennol neu flaenorol. Mae hyn yn cynnwys methu â chynnal unrhyw gartref rhent cymdeithasol neu gartref y sector rhentu preifat o fewn telerau eu cytundeb tenantiaeth, neu gyflawni gweithredoedd sy'n achosi neu sy'n debygol o achosi niwsans neu flinder i gymdogion neu eraill yn yr ardal leol y maent yn byw neu le y maent wedi byw o'r blaen. Mae'n cynnwys digwyddiadau difrifol o dorri cytundeb tenantiaeth cymdeithasol neu breifat - er enghraifft rhedeg busnes o'r safle, bod â nifer afresymol o anifeiliaid anwes yn y cartref er gwaethaf cael rhybudd o dorri cytundeb.
2. Bydd penderfyniad bod yr ymgeisydd yn anghymwys i'w gofrestru fel arfer yn berthnasol nes bod yr ymgeisydd (neu aelod o'i aelwyd arfaethedig) wedi dangos, er boddhad y Cyngor, fod yr amgylchiadau wedi newid cymaint fel nad yw'r ymddygiad blaenorol yn debygol o ddigwydd eto. Mewn llawer o achosion, gallai hyn gynnwys dangos cydweithrediad ag asiantaethau cymorth gan arwain at welliant sylweddol mewn ymddygiad.
3. Ymddygiad sy'n debygol o achosi niwsans neu flinder – ymddygiad yw hwn nad yw'n ymwneud â chytundeb tenantiaeth y sector rhentu preifat yn unig. Mae hyn yn cynnwys pan fo ymgeisydd neu aelod o'i aelwyd bresennol neu arfaethedig yn destun y camau gweithredu a gymerir gan y Cyngor (neu ryw gorff cymwys arall) ar sail Ymddygiad Gwrthgymdeithasol honedig (ASB). Mae'n cynnwys ymddygiad troseddol a oedd yn berthnasol i'r denantiaeth a/neu'r ardal leol, er enghraifft meddu ar gyffuriau anghyfreithlon, gweithredoedd o anhrefn gyhoeddus. Mae hyn hefyd yn cynnwys ymddwyn mewn modd bygythiol, camdrinol neu rwystrol tuag at aelodau staff y Cyngor a/neu ei contractwyr.

4. Pan benderfynir yn ôl y ffeithiau, er gwaethaf yr ymddygiad annerbyniol, y gall ymgeisydd fod yn gymwys ar gyfer y gofrestr, fel arfer ni ddyfernir unrhyw flaenoriaeth iddo ac ni roddir unrhyw gynnig o lety iddo nes ei fod wedi ymdrin â'r ymddygiad annerbyniol er boddhad y Cyngor
5. Pan ganfyddir bod ymgeisydd yn anghymwys, fel arfer bydd unrhyw gais newydd ond yn arwain at gymhwysedd pan nad oes unrhyw achos rhesymol i gwyno yn erbyn yr ymgeisydd (neu aelodau o'i aelwyd arfaethedig) neu achos o bryder yn ei erbyn am gyfnod parhaus o 12 mis. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd fydd hi i gysylltu â'r Cyngor pan fo'r ymgeisydd o'r farn bod y meini prawf wedi'u bodloni sy'n golygu ei fod bellach yn gymwys ar gyfer cynnig o dai cymdeithasol.

Atodiad 3: Sut y cymhwysir unrhyw bolisi gosodiadau lleol a sut y caiff ei adolygu?

Caiff Mentrau Gosod Tai Lleol eu cymhwyso i fodloni anghenion arbennig ward leol neu i fynd i'r afael â materion cymunedol a chynnaladwyedd i sicrhau y gall y cynllun dyrannu tai gyfrannu at adeiladu cymunedau cynaliadwy.

Mae Bro Morgannwg wedi datblygu nifer o bolisiau gosod tai lleol ar y cyd â chynghorau cymunedol a'n cymdeithasau tai partner. Y budd o'u defnyddio yw y gallwn ni addasu ein harferion ar gyfer gofynion y gymuned leol. Er enghraifft, mae pobl mewn ardaloedd gwledig yn aml yn pryderu am eu pobl ifanc yn cael eu gorfodi i symud i ffwrdd oherwydd diffyg tai fforddiadwy. Mae pennu polisi cysylltiad lleol yn ein galluogi i roi blaenoriaeth ddilys i bobl ifanc, a thrwy hynny yn cadw'r gymuned yn gryf. Mewn ardaloedd eraill, efallai y bydd angen dyfeisio polisi sy'n sensitif i amgylchiadau lleol, er enghraifft lleihau dwysedd poblogaeth ar ystâd neu atal ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Cânt eu teilwra i gyd-fynd â sefyllfaoedd lleol mewn cymunedau a ddiffinnir yn dda (megis bloc o fflatiau arbennig, stryd unigol, neu ddatblygiad tai newydd. Neu fe ellir eu cymhwyso at blwyf neu bentref mewn ardal leol). Bydd pob menter gosod tai lleol yn cael ei hasesu yn ôl dadansoddiad manwl o wybodaeth berthnasol a gesglir o amrywiaeth o ffynonellau a all gynnwys, er enghraifft, dystiolaeth o adrannau mewnol, Cymdeithasau Tai partner, Cynghorwyr lleol, a'r gymuned ei hun. (Gall tystiolaeth gynnwys gwybodaeth megis proffilio tenantiaid, nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, a throsiant stoc mewn bloc, stryd neu ardal benodol, neu'r angen i ddarparu tai ar gyfer pobl ifanc mewn pentrefi a phlwyfi gwledig).

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o bolisiau gosod tai lleol y gellir eu cyflwyno o dan y Polisi Dyrannu. Mae'r rhestr at ddibenion eglurhaol ac nid yw'n gynhwysfawr.

- Cyfyngiadau o ran oedran.
- Polisiau a fwriedir i annog ymgeiswyr sy'n gweithio neu sy'n gwirfoddoli i fyw mewn ardal lle, er enghraifft, y gall fod stryd, neu ardal sydd â nifer uchel o aelwydydd o oedran gweithio, nad ydynt yn gweithio.
- Blaenoriaethu ymgeiswyr sy'n weithwyr allweddol fel y diffinnir gan y Cyngor.
- Cyfyngiadau ar osod tai i aelwydydd sy'n agored i niwed lle y mae eisoes grynhoad o denantiaid/preswylwyr a gefnogir ar stryd neu mewn bloc.
- Gosod tai i aelwydydd di-blant lle y ceir crynhoad uchel o blant a phobl ifanc yn byw ar ystâd, stryd neu floc penodol.
- Diystyru rheolau paru cartrefi neu'r math o aelwyd er mwyn galluogi tanfeddiannaeth i leihau dwysedd o ran plant neu i gyfrif am dwf y teulu yn y dyfodol
- Sicrhau y dyrennir cydbwysedd o aelwydydd sy'n gweithio ac aelwydydd nad ydynt yn gweithio ar gyfer cynllun adeiladu newydd.

Sut y caiff polisi gosod tai lleol ei asesu a sut y cytunir arno?

Bydd y Cyngor a'r Partner Cymdeithas Dai yn dod i gytundeb ar bentrefi, ystadau, blociau neu strydoedd lle y gall polisi gosod tai lleol fod yn briodol a'r rhesymau am hynny.

Mae'n rhaid cael sylfaen wybodaeth glir ar gyfer mabwysiadu polisi gosod tai lleol. Bydd cytundeb ar ba un a yw polisi gosod tai lleol yn briodol, yn seiliedig ar y prawf canlynol:

1. Y ceir diffiniad clir o'r amcan y mae disgwyl i'r polisi gosod tai penodol hwnnw ei gyflawni
2. Y ceir sylfaen dystiolaeth glir i ategu'r angen am polisi gosod tai lleol.
3. Bod unrhyw effaith bosibl ar gydraddoldeb wedi'i hystyried.
4. Am ba mor hir y bwriedir gweithredu'r polisi gosod tai lleol
5. Pa bryd y dylid adolygu'r polisi

Dylid cadw cofnod ysgrifenedig o bob polisi a fabwysiadir neu a wrthodir. Bwriedir i'r polisïau gosod tai lleol fod yn hyblyg a pholisïau newydd yn cael eu hychwanegu yn ôl yr angen a pholisïau presennol yn cael eu dileu ar ôl bodloni'r amcan ar gyfer y polisi hwnnw.

Rhestrir pob polisi presennol ar gyfer gosod tai lleol fel dolenni i fersiwn ar-lein Polisi Dyrannu'r Cyngor fel y gall y cyhoedd weld pa bolisïau sydd ar waith ar unrhyw adeg."

Atodiad 4: Y Polisi Gwaharddiadau – Polisi cytunedig ar gyfer pan waherddir ymgeisydd rhag cael ei ystyried am gynnig o dai cymdeithasol gan Gymdeithas Dai Gofrestredig

Mae'r atodiad hwn at bolisi dyrannu Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff Darparwr Cymdeithas Dai Gofrestredig (y cyfeirir ato yn y ddogfen hon fel RHA) osgoi'r ymgeisydd nesaf sydd i fod i dderbyn llety.

Mae'r partïon yn cytuno ar y polisi cyffredin, sef:

1. Na ddylid defnyddio gwaharddiadau cyffredinol.
2. Ni fydd y Cyngor nac unrhyw gymdeithas dai partner yn penderfynu osgoi ymgeisydd a fyddai'r nesaf i gael cynnig o lety, dim ond drwy ddefnyddio'r meini prawf cytunedig a nodir yn y polisi hwn
3. Ni cheir cymhwyso unrhyw fenter gosod tai lleol y mae'r Cyngor neu gymdeithas dai partner yn dymuno ei chymhwyso, dim ond drwy ddilyn y weithdrefn y cytunir arni gan y Cyngor ac enw'r RHA a nodir yn y polisi hwn
4. Pan fo partner cymdeithas dai y polisi hwn yn dymuno cadw rheolau eithrio nad ydynt yn ffurfio rhan o'r polisi cyffredin, (er enghraifft, rheolau yn ymwneud â maint y llety i'w gynnig; neu reolau yn ymwneud â chynigion o lety gan ymgeiswyr a chanddynt ôl-ddyledion rhent blaenorol neu ymddygiad nad ydyw wedi'i ddatrys nac wedi mynd i'r afael ag ef eto) dylai'r rheolau hyn fod yn dryloyw a chânt eu cofnodi ar gyfer pob cymdeithas dai fel atodiad at y polisi dyrannu cyffredinol fel ei bod hi'n glir pan fo cymdeithas dai a enwir yn osgoi ymgeisydd a'r rhesymau am hynny.

Mae pob parti wedi cytuno cyn belled ag y bo modd i bennu cyfres gyffredin o reolau ac i sicrhau cyn lleied â phosibl o eithriadau, ond maent i gyd yn cydnabod yr angen i bob cymdeithas reoli eu hanheddau yn briodol.

Mae'n bwysig y caiff anghenion ymgeiswyr sy'n agored i niwed eu cydnabod ac y gwneir trefniadau i ofal a chymorth fod ar gael er mwyn galluogi tenantiaid sy'n agored i niwed i gynnal tenantiaethau. Mae'r polisi dyrannu yn gynhwysol ac ni fwriedir iddo wahardd pobl sy'n agored i niwed rhag cael tai cymdeithasol ond sicrhau y gellir cartrefu ymgeiswyr sy'n agored i niwed pan fo angen fel y gellir cynnal eu tenantiaethau.

Er mwyn cefnogi gweithrediad effeithlon y polisi cyffredin, bydd Panel Gwaharddiadau yn cynnwys uwch gynrychiolydd o'r Cyngor a chynrychiolwyr o'r RHAs yn cwrdd bob mis (ac yn amlach na hynny os bydd y ddau barti'n cytuno) i adolygu achosion o flaenoriaeth uchel a all fod yn gymwys i gael cynnig o dai a lle y gall eu hamgylchiadau arwain at osgoi'r ymgeisydd neu le y ceir amgylchiadau eithriadol nad ydynt yr un fath â'r enghreifftiau a nodir yn y polisi hwn, ond bod posibilrwydd o hyd y caiff ymgeisydd ei osgoi. Amcan sefydlu panel yw rhagweld achosion a all beri problemau a chytuno pa un a ddylid ystyried yr ymgeisydd ar gyfer cynnig o dai cymdeithasol ai peidio.

Yn amlwg, nid yw'n bosibl disgrifio pob sefyllfa lle y gellir osgoi ymgeisydd sydd i fod i gael cynnig o dai cymdeithasol. Mae'r canlynol yn cynnwys y sefyllfaoedd mwyaf cyffredin ac mae'r polisi hwn yn nodi'r meini prawf cytunedig a gymhwysir.

a) Nid yw'r aelwyd y maint cywir ar gyfer y cartref.

Pan nad yw aelwyd yn bodloni rheolau'r meini prawf o ran maint ar gyfer cymdeithas er gwaethaf y ffaith ei bod yn bodloni'r meini prawf o ran maint ar gyfer paru ymgeiswyr a nodir yn y polisi cyffredin. Er enghraifft, gallai hyn fod pan fo cymdeithas wedi mabwysiadu rheolau gwahanol mewn cysylltiad ag oedran y plant ar gyfer cyfrifo maint ystafelloedd gwely, neu eu rheolau eu hunain ar gyfer achosion pan ellir dyrannu llety sy'n cael ei dadfeddiannu i ymgeisydd a fyddai'n destun rheolau cymhorthdal yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer ystafelloedd sengl. Pan fo gwahanol reolau'n berthnasol, cânt eu cofnodi ar gyfer y gymdeithas honno yn yr atodiad at y polisi dyrannu gyffredin, (Nid ydym ni'n cytuno â hyn. Mae'r cymdeithasau wedi cofrestru ar gyfer Homes4U, felly dylent fod yn cadw at ein polisi dyrannu a pheidio â chaniatáu cleientiaid i symud i gartref nad ydyw'r mwyaf addas ar gyfer y teulu. Byddant yn defnyddio hyn i ddethol y cleientiaid y maent eu heisiau.)

b) Mae gan yr ymgeisydd ddyled yn ymwneud â thenantiaeth tai cymdeithasol.

Ni fydd ymgeisydd sy'n euog o ymddygiad difrifol i'w gwneud yn anaddas i fod yn denantiaid, yn gymwys i fod yn aelod o'r cynllun dyrannu cyffredin, neu fe gaiff ganiatâd i fod yn gymwys ond ni roddir unrhyw flaenoriaeth iddo hyd oni ymdrinnir â'i ôl-ddyledion rhent blaenorol neu bresennol. Bydd hyn yn cynnwys ôl-ddyledion rhent blaenorol neu bresennol difrifol a fyddai'n arwain at orchymyn adennill meddiant llwyr yn cael ei roi gan lys. Nodir yn yr adran gymhwysedd y polisi cyffredin (atodiad 2) sut y caiff y prawf hwn ei gymhwyso.

Fodd bynnag, bydd ymgeiswyr sy'n gymwys ond bod ganddynt, serch hynny, rywffaint o ôl-ddyledion rhent blaenorol. Gall ôl-ddyledion gynnwys ôl-ddyledion rhent blaenorol neu bresennol, difrod i eiddo tai cymdeithasol blaenorol neu gostau cyfreithiol yn deillio o achos llys mewn cysylltiad â thenantiaeth bresennol neu flaenorol.

Ar adeg pan fo'r ymgeisydd wedi gwneud cais llwyddiannus am gynnig o lety neu y rhagwelir, o ganlyniad i'w flaenoriaeth uchel o ran tai, y bydd yn debygol o fod yn llwyddiannus yn fuan, bydd y weithdrefn ganlynol yn berthnasol i ymgeisydd o ran ôl-ddyledion rhent presennol neu flaenorol:

- a. Bydd y RHA yn ystyried a oes ar yr ymgeisydd ôl-ddyledion o hyd, ac os ydynt, graddfa'r ôl-ddyledion.
- b. Pa un a oes amgylchiadau eithriadol, a ddylai arwain at gynnig llety i'r ymgeisydd, er gwaethaf yr ôl-ddyledion hynny.
- c. Pa un a yw'r hawlydd wedi dilyn cyngor ar ddyled, wedi gweithredu arno, ac wedi ymrwymo i unrhyw drefniant i dalu'r ôl-ddyledion ac wedi cychwyn gweithredu'r trefniant hwnnw.
- ch. Pan fo trefniant wedi'i wneud, swm yr ôl-ddyledion wedi'u talu, unrhyw ddyled sydd ar ôl, a pha mor rheolaidd y gwneir unrhyw daliadau.
- d. Yna, cyflwynir yr achos i'r Panel Gwaharddiadau i'w ystyried
- dd. Fel arfer, bydd hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r holl ôl-ddyledion fod wedi'u talu neu o leiaf wyth wythnos o daliadau rheolaidd er mwyn talu'r ôl-ddyledion presennol neu flaenorol.

Pan nad oes unrhyw drefniadau wedi'u gwneud gan yr ymgeisydd i fynd i'r afael â'i ôl-ddyledion presennol neu flaenorol, rhoddir gwybod iddo am unrhyw gamau y mae angen iddo eu cymryd i gywiro'r broblem cyn y gellir eu hystyried am gynnig gan y gymdeithas honno.

Gellir cyflwyno achosion i gyfarfodydd misol y panel Gwahardd i benderfynu a oes camau digonol wedi'u cymryd gan yr ymgeisydd o dan y polisi er mwyn i'r RHA a enwir wneud cynnig o lety.

Pan fo gwybodaeth am ôl-ddyledion cyn denant ond yn dod i'r amlwg ar ôl gwneud cynnig, gall y gymdeithas dynnu'r cynnig hwnnw yn ôl a chymhwyso'r polisi ar gyfer ôl-ddyledion.

c) Peidio â chydymffurfio â chytundeb tenantiaeth presennol neu flaenorol

Ni fydd ymgeiswyr sy'n euog o ymddygiad difrifol a fyddai'n eu gwneud yn anaddas i fod yn denant, yn gymwys i fod yn aelod o'r cynllun dyrannu cyffredin, neu fe ganiateir iddynt gymhwyso ond ni roddir unrhyw flaenoriaeth iddynt hyd oni fyddant wedi datrys unrhyw fater yn ymwneud ag ymddygiad, er boddhad y Cyngor. Nodir y meini prawf yn llawn yn y Polisi Dyfarnu Cyffredin (yr adran ar gymhwysedd, atodiad 2). Bydd hyn yn cynnwys digwyddiadau difrifol o dorri cytundeb tenantiaeth, neu ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol neu weithgarwch troseddol a fyddai'n arwain at lys yn rhoi gorchymyn adennill meddiant llwyr. Fodd bynnag, bydd yna ymgeiswyr sy'n gymwys ar gyfer y gofrestr gyffredin ond, serch hynny, efallai bod pryder o hyd ynglŷn â materion presennol neu flaenorol yn ymwneud ag ymddygiad. Nod y Polisi Gwaharddiadau hwn yw sicrhau nad yw ymgeiswyr yn cael gwaharddiad cyffredinol rhag tai cymdeithasol, ond eu bod yn cael eu hysbysu am y camau y mae angen iddynt eu cymryd er mwyn bodloni partneriaid y gallant gynnal tenantiaeth heb unrhyw broblemau pellach yn ymwneud ag ymddygiad.

Bydd y meini prawf canlynol yn berthnasol pan fo partner RHA yn fodlon bod yr ymgeisydd (neu aelod o'i aelwyd arfaethedig) wedi methu â chynnal ei gartref o'r sector rhentu preifat neu ei gartref rhent cymdeithasol presennol neu unrhyw rai blaenorol, o fewn telerau ei gytundeb tenantiaeth, neu ei fod wedi cyflawni gweithredoedd sydd wedi achosi niwsans neu flinder neu sy'n debygol o achosi hynny i'w gymdogion neu i eraill yn yr ardal leol lle y mae'n byw neu le y mae wedi byw o'r blaen.

Ar adeg pan fo'r ymgeisydd wedi gwneud cais llwyddiannus am gynnig o lety neu y rhagwelir o ganlyniad i'w flaenoriaeth uchel o ran tai, y bydd yn debygol o fod yn llwyddiannus yn fuan, bydd y weithdrefn ganlynol yn berthnasol:

Dylid cyflwyno'r achos i gyfarfodydd misol y Panel Gwaharddiadau er mwyn iddo benderfynu a yw'r ymgeisydd wedi cymryd camau digonol i fynd i'r afael â'r mater fel y caiff ymgeisydd ei ystyried ar gyfer cynnig o lety ar ôl ymdrin â'r ymddygiad.

Yn y rhan fwyaf o achosion, ailystyriir y statws pan fo tystiolaeth glir fod yr ymgeisydd wedi ymdrin â'i ymddygiad er boddhad y panel gwaharddiadau a pha na cheir achos i gwyno yn erbyn yr ymgeisydd (neu aelodau o'i aelwyd arfaethedig) am gyfnod parhaus o 6 mis o'r adeg pan fo'r camau gweithredu wedi'u cytuno â'r ymgeisydd i fynd i'r afael â'i ymddygiad neu broblemau eraill a nodir.

Pan na fo'r Panel yn fodlon bod yr ymgeisydd wedi cymryd camau digonol i fynd i'r afael â'i ymddygiad, rhoddir gwybod i'r ymgeisydd am y camau y bydd angen iddo eu cymryd cyn y bydd yr RHA yn ei ystyried ar gyfer cynnig. Gall hyn gynnwys cydweithio am gyfnod o amser ag asiantaethau cymorth, gwasanaethau cymdeithasol neu sefydliadau eraill lle y ceir canlyniad pendant fod gwelliant sylweddol yn ei ymddygiad.

ch) Ymgeiswyr sy'n agored i niwed a chanddynt anghenion cymorth uchel neu ymgeiswyr y mae angen gosodiadau llety sensitif arnynt megis achosion Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA)

Ceir nifer o amgylchiadau lle efallai y bydd y Cyngor neu bartner RHA angen osgoi ymgeisydd sydd ar fin cael cynnig o dai cymdeithasol. Gall hyn fod:

- ✓ Pan fo ymgeisydd yn agored i niwed ac yr ystyrir nad yw'n barod i gynnal tenantiaeth eto;
- ✓ Ystyrir y gall fod risg i'r ymgeisydd neu eraill pan fo angen dod o hyd i gartref ar gyfer achos MAPPA, er enghraifft, ac efallai y bydd angen cynllunio gosodiad sensitif.

Nid yw'n bosibl disgrifio pob sefyllfa lle y gellir osgoi ymgeisydd. Bydd angen i'r Panel Gwaharddiadau drafod achosion unigol sy'n dod y tu allan i gwmpas y meini prawf. Fodd bynnag, mae hi'n bwysig nad yw ymgeiswyr o'r fath yn cael eu hosgoi yn y pen draw oherwydd diffyg gwybodaeth, neu ddiffyg pecyn cymorth priodol. Pan geir ymgeiswyr sy'n agored iawn i niwed neu yr ystyrir eu bod yn peri risg i'w hunain neu i eraill, dylid cyflwyno'r achos i gyfarfod misol y Panel Gwaharddiadau er mwyn iddo benderfynu a yw'r ymgeisydd yn barod i gynnal tenantiaeth a pha becyn cymorth sydd ei angen fel y gellir gwneud cynnig o lety.

Gall y math o wybodaeth i'w hystyried gan y panel gynnwys:

- Manylion am unrhyw broblem iechyd, anabledd neu salwch hirdymor sydd angen tai, gofal neu gymorth arbenigol neu benodol
- Manylion am anghenion cymorth a gofal eraill, er enghraifft bod yn agored i niwed o ganlyniad i Anawsterau dysgu.
- Manylion am becynnau arfaethedig, presennol a blaenorol o ddarpariaeth gofal a ddarparwyd gan gyrrff statudol neu gyrrff eraill pan fo'n hysbys.
- Gwybodaeth berthnasol a rhesymol o ran hanes blaenorol o ymddygiad gwrthgymdeithasol a all effeithio ar ddiogelwch y gymuned.
- Y math o lety y mae'r ymgeisydd yn symud ohono ac unrhyw hanes llety ychwanegol sydd ar gael.

*Mae hi hefyd yn bwysig nad oes yr un gymdeithas dai unigol yn darparu cartrefi ar gyfer nifer anghymesur o achosion MAPPA neu achosion o bobl sy'n agored i niwed. Mae angen sefydlu system yn seiliedig ar dryloywder a thystiolaeth. Felly mae angen i'r panel ystyried nifer y cartrefi gwag; proffil y lleoedd gwag yn ôl ardal; proffil yr achosion o bobl agored i niwed sydd wedi'u cartrefu'n flaenorol a chyfiawnhad clir yn seiliedig ar dystiolaeth o pam na ellir defnyddio unrhyw gartrefi ar gyfer ymgeiswyr MAPPA neu sy'n agored i niwed. Bydd angen i'r panel gofnodi pan gytunir na ellir defnyddio cartref penodol neu

pan fo risg yr unigolyn neu ba mor agored i niwed ydyw yn golygu y caiff ei osgoi ar gyfer cartref y byddai ei statws anghenion tai yn golygu y dylid rhoi cynnig iddo.

d) Amgylchiadau pan ystyrir nad yw ymgeisydd yn gallu fforddio talu ei rent a'i gostau tai

O ganlyniad i ostyngiad pellach yn y Cap ar Fudd-daliadau a'r newidiadau presennol a'r rhai arfaethedig i ddiwygio lles, mae gallu ymgeisydd i allu fforddio talu ei rent a chostau tai eraill yn naturiol yn destun pryder ar gyfer RHA. Mae'n bwysig bod unrhyw benderfyniad i osgoi ymgeisydd ar sail ei allu i fforddio talu ei gostau tai, yn cael ei gymhwyso'n barhaus ac yn dilyn proses asesu clir a chadarn.

Yr amcan yw cael fframwaith asesu fforddiadwyedd cyffredin a ddefnyddir gan y Cyngor ar adeg pan fo ymgeisydd yn gwneud cais i ymuno â'r gofrestr ac fe gymhwysir pob RHA ar adeg pan wneir cais arfaethedig. Pan geir gwahaniaeth barn ar allu'r ymgeisydd i fforddio'r rhent, caiff achos ei gyflwyno i'r panel i'w ystyried. Mae hyn yn cynnwys pan na all ymgeisydd fforddio talu rhent ymlaen llaw a phan geir amgylchiadau eithriadol, y caiff dewisiadau talu eu trafod â'r ymgeisydd yn ystod y cyfweiliad dilysu i sicrhau y bydd y cartref yn fforddiadwy.

Gweithdrefn Anghydfod pan nad yw parti'n cytuno

Caiff unrhyw anghydfod sy'n codi o ganlyniad i RHA yn gwrthod gwneud cynnig o lety i ymgeisydd, neu'n gwrthod ystyried gwneud cais i ymgeisydd y mae ei flaenoriaeth yn golygu y dylai gael cynnig, pan fo un ai'r Cyngor neu'r RHA yn credu bod hyn yn groes i'r polisi cytunedig, ei ddatrys yn unol â'r weithdrefn ganlynol:

- (a) O fewn 2 ddiwrnod o bryder yn cael ei godi, bydd yn rhaid i Swyddog Enwebedig y Gymdeithas a Swyddog Enwebedig y Cyngor (oherwydd y Cyngor yw'r parti sy'n bennaf gyfrifol am y polisi dyrannu) gwrdd, a bydd yn rhaid i'r holl bartïon wneud pob ymdrech resymol i ddatrys yr anghydfod yn gyfeillgar gydag ewyllys da, o ystyried os na allant ddatrys yr anghydfod, yna;
- b) Os na ellir datrys yr anghydfod drwy a) uchod, caiff ei atgyfeirio at Uwch Swyddog y Cyngor sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros y Polisi Dyrannu Tai ac at Brif Weithredwr y Gymdeithas a fydd yn gwneud pob ymdrech i drafod y mater o fewn 2 ddiwrnod o'r adeg pan atgyfeirir yr anghydfod atynt a byddant yn gwneud pob ymdrech resymol i ddatrys yr anghydfod yn gyfeillgar gydag ewyllys da.

Atodiad 5: Y Panel Asesu Gosodiadau a Gwaharddiadau

Bydd y Panel Asesu Gosodiadau a Gwaharddiadau yn cwrdd cyn amled ag sy'n briodol. Swyddogaeth y panel fydd ystyried ceisiadau y mae'r Cyngor wedi'u hanfon ymlaen ato a gwneud penderfyniadau arnynt.

Bydd y panel yn gyfrifol am ystyried amgylchiadau'r ymgeisydd neu aelod o'i aelwyd arfaethedig. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn. Gellir cael sylwadau ysgrifenedig gan ymgeisydd a'i gorff cynrychioladol a/neu broffesiynol:

- 1) Ymgeiswyr y mae ganddynt broblemau meddygol nad ydynt yn ddigonol ar eu pennau eu hunain i roi blaenoriaeth, ond pan geir ffactorau cymdeithasol perthnasol eraill.
- 2) Angen llety mwy sefydlog er mwyn ymdrin â materion amddiffyn plant sy'n codi o dan y Ddeddf Plant:-
- 3) Mae gan yr aelwyd sy'n ceisio llety anghenion lles mor ddifrifol fel bod amddiffyn oedolion neu blant sy'n agored i niwed ond yn bosibl pe byddai'r aelwyd yn symud i gartref newydd a phan allai'r amgylchiadau presennol ddirywio i'r fath raddau gan beri risg i aelodau o'r aelwyd, neu beri bod angen iddynt gael gofal preswyl oni bai y cynigir eu hailgartrefu.
- 4) Teuluoedd gyda phlentyn a chanddo anawsterau o ran ymddygiad, a all fod angen ystafell wely ychwanegol neu fath penodol o lety.
- 5) Angen mwy o le megis ar gyfer gofalwr neu i fabwysiadu.
- 6) Lefel risg unigolyn a allai fod yn agored i niwed sy'n parhau i fyw yn ei gyfeiriad presennol.
- 7) Yr angen ar gyfer ailgartrefu oherwydd anawsterau anghymodadwy yn ymwneud â chymdogion.
- 8) Ceisiadau i gytuno ar eithriadau i bolisiâu sefydledig e.e. llai o ffafriaeth o ganlyniad i ôl-ddyledion rhent blaenorol neu bresennol, pan fyddai glynu wrth y polisi yn achosi caledi arbennig.
- 9) Ceisiadau i gymeradwyo ymgeisydd ar gyfer unrhyw fath o ddarpariaeth tai arbennig, er enghraifft, cymorth fel y bo'r angen, cymorth â thai oherwydd anhawster dysgu, problemau iechyd meddwl, camddefnyddio cyffuriau neu alcohol, anawsterau synhwyrdd, angen am lety gweddol isel, llety dwysedd isel neu lety mewn ardaloedd arbennig yn y fwrdeistref i roi neu i dderbyn cymorth ac ati.
- 10) Ceisiadau i drosglwyddo yn dilyn aflonyddu gan gynnwys, cam-drin geiriol, sarhau, bygythiadau, difrod i eiddo neu feddiannau, ymddygiad bygythiol neu ymosodol, graffiti hiliol, homoffobig neu ymosodol arall, ymosodiadau diachos gan gynnwys ymosodiadau cyffredin, niwed corfforol gwirioneddol a niwed corfforol difrifol, defnyddio cŵn, cynnau tannau bwriadol a cheisio cynnau tannau bwriadol, llythyrau bygythiol, tystion troseddau, neu ddioddefwyr troseddau, a fyddai mewn perygl o fygythiadau a fyddai'n

arwain at drais neu fygythiadau o drais pe byddant yn aros yn eu cartrefi presennol.

- 11) Ceisiadau ar gyfer trosglwyddo neu ailgartrefu pan fo profedigaeth neu drychineb personol wedi bod yn y cartref neu'r ardal.
- 12) Pan fo'r ymgeisydd yn anghymwys o ganlyniad i ymddygiad annerbyniol yn cynnwys ôl-ddyledion rhent a dyled y gellir ei hadennill;
- 13) Pan fo'r ymgeisydd yn gymwys ond ni roddir unrhyw ffafriaeth iddo oherwydd ymddygiad annerbyniol neu unrhyw feini prawf arall a amlinellir yn y polisi
- 14) Pan fo ymgeisydd yn gwaethygu ei amgylchiadau ei hun er mwyn cael mwy o flaenoriaeth;
- 15) Yn fwriadol yn gwneud datganiad sy'n ffug neu'n ddi-hid wrth wneud hynny, neu'n fwriadol yn gwrthod rhoi gwybodaeth;
- 16) Angen asesiad risg cyn cael ei ailgartrefu
- 17) Bydd y Panel hefyd yn adolygu achosion a all gael cynnig o lety pan fo amgylchiadau'n bodoli a all arwain at yr ymgeisydd yn cael ei osgoi o dan y polisi gwaharddiadau cytunedig a nodir yn atodiad 5.

Cyfansoddiad y Panel

Bydd y Panel yn cynnwys y Swyddogion canlynol:

- Rheolwr Awdurdod Lleol sydd â chyfrifoldeb am dai
- O leiaf 2 gynrychiolydd o'r Gymdeithas Dai.

Caiff aelodau ychwanegol eu cyfethol yn ôl yr angen.

Amllder o trafodaethau y Panel

Bydd y Panel yn drafod achosion mor aml â phosibl. Derbynir swyddogion y panel yr achos a'r dystiolaeth ategol ar ffurflen panel gosodiadau safonol a trwy e-bost.

Caiff pob penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny eu cofnodi a rhoddir gwybod i ymgeisydd am y penderfyniad. Mewn achosion eithriadol, efallai y gofynnir i ymgeisydd fod yn bresennol o flaen y panel er mwyn rhoi eglurhad ar ei achos.

Monitro

Bydd nifer yr achosion y bydd y Panel yn ymdrin â nhw, ynghyd â'r penderfyniadau a wneir a'r rhesymau dros eu cymryd, yn cael eu monitro a'u hadrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor Craffu ar Wasanaethau Cwsmeriaid ac i fyrddau o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig perthnasol.

Atodiad 6: Gwybodaeth a ddarperir i ymgeiswyr am sut y gall ymgeiswyr sy'n gymwys i gofrestru wneud cais am gartref a sut yr ystyrir eu cais

Cam 1 – Cadarnhau aelodaeth

Byddwn ni'n ysgrifennu at yr holl ymgeiswyr i roi gwybod iddynt eu bod wedi'u cofrestru, beth yw dyddiad yr aelodaeth, beth yw band blaenoriaeth yr aelodaeth a beth yw maint y cartrefi y gallant wneud cais amdanynt. Os ydych chi o'r farn nad yw'r penderfyniad yn gywir, mae'n rhaid i chi ysgrifennu atom ni yn nodi pam, fel y gallwn ni ailasesu eich cais.

Cam 2 – Dod o hyd i'ch Cartref

Rydym ni'n hysbysebu cartrefi a ddarperir yn y wasg leol, fodd bynnag am effeithlonrwydd y Cyngor a'r Cynllun, efallai bydd hwn yn newid yn y dyfodol a caiff cartrefi ond ei hysbysebu ar wefan HOMES4U a mathau eraill o gyfryngau cymdeithasol.

Mae manylion am y cartrefi ar gael gan unrhyw un o'r sefydliadau sy'n cymryd rhan, asiantaethau partner y sector gwirfoddol neu drwy ymweld â gwefan y Cyngor - www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/index.aspx. Gallwch chi hefyd ffonio llinell gymorth HOMES4U ar 01446 709840. Caiff hysbysebion eu hagor bob yn ail ddydd Iau am 8.30 a.m. ac maent yn aros ar agor hyd at y dydd Mercher dilynol am 5.00 p.m. Mae'r broses hysbysebu presennol er enghraifft a gall hefyd fod yn debygol i newid mewn ymateb i alwadau ar y Cynllun

Cam 3 – Gwneud Cais am Gartref

Gallwch chi wneud cais am gartrefi ar unrhyw adeg pan fo'r hysbyseb yn 'fyw'. Gallwch chi wneud cais yn nhrefn blaenoriaeth ar gyfer y cartrefi yr ydych chi'n dymuno cael eich ystyried ar eu cyfer. Gellir gwneud hyn drwy ffonio HOMES4U ar 01446 709840, gwneud cais ar-lein yn www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/index.aspx, neu drwy alw heibio neu ysgrifennu at:

HOMES4U
Yr Amgylchedd a Tai
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton
Y Barri
Bro Morgannwg
CF63 4RU

Cofiwch, i wneud cais am gartref mae'n rhaid i chi fod yn aelod o HOMES4U! Os oes mwy nag un yn gwneud cais am gartref, a'u bod i gyd o dan yr un band, dewisir yr un sydd wedi bod o dan y band hwnnw hiraf.

Cam 4 – Dewis

Pan fo cais yn llwyddiannus, bydd swyddog yn cysylltu â chi i wneud yn siŵr bod y manylion a ddelir gan HOMES4U y rhai diweddaraf a'u bod yn fanwl gywir, ac yn bwysicaf oll, fod y band blaenoriaeth cywir wedi'i ddyfarnu. Gwneir gwiriadau hefyd gyda sefydliadau partner i gadarnhau unrhyw ddyledion heb eu clirio neu ymddygiad annerbyniol blaenorol. Dim ond ar ôl cwblhau'r gwiriadau hyn y caiff cynnig ffurfiol o lety ei wneud.

Cam 5 – Dyrannu Cartref HOMES4U

Cynigir y cartref i'r ymgeisydd sy'n gymwys ar gyfer y math hwnnw o gartref, sydd o dan y band blaenoriaeth uchaf a chanddo'r dyddiad cofrestru cynharaf. Mae pob cynnig a wneir gan y bartneriaeth yn amodol ar ymgeiswyr yn pasio'r broses ddilysu.

Mae dilysu'n golygu y byddwn ni'n ymweld â chi gartref i gadarnhau bod y manylion yr ydych chi wedi'u darparu yn fanwl gywir. Os nad ydynt, yna efallai y caiff y cynnig ei dynnu'n ôl. Ar ôl cael dilysu'r manylion yn llwyddiannus, trefnir apwyntiad i chi weld y cartref.

Mae'n rhaid i aelodau o HOMES4U sy'n dymuno cael eu cartrefu mewn cartref a hysbyseb, wneud cais am y cartref hwnnw.

Mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau yn ystod y cyfnod (8:30AM Dydd Iau tan 5:00PM y dydd Mercher dilynol) y caiff y cartref ei hysbysebu.

Gall aelodau o HOMES4U ddewis gwneud cais am gymaint o gartrefi ag y dymunant, yn unol â matrices HOMES4U. Wrth wneud hynny, bydd yn rhaid i'r ymgeisydd wneud ceisiadau yn nhrefn blaenoriaeth.

Bydd pob dyraniad yn seiliedig ar flaenoriaeth y ceisiadau a dderbynnir fel a ganlyn:-

Os derbynnir mwy nag un cais gan ymgeiswyr a chanddynt yr un band blaenoriaeth, yna cynigir y cartref i'r unigolyn sydd wedi'i gofrestru hiraf.

Bydd maint y cartref a gynigir i ymgeisydd yn dibynnu ar faint y teulu. Os bydd ymgeisydd angen ystafell wely ychwanegol am resymau meddygol neu am resymau eraill, (e.e. os oes ganddo ofalwr llawn amser), gwneir y penderfyniad hwn gan Banel Gosod Tai HOMES4U ar adeg yr asesu ac fe hysbysir yr ymgeisydd/wyr yn ysgrifenedig. Amlinellir maint y cartref a gynigir i Aelodau yn Atodiad A – Canllawiau Matrics Dyrannu Eiddo HOMES4U. Os na cheir unrhyw geisiadau gan ymgeiswyr sy'n bodloni Canllawiau'r Matrics Dyrannu Eiddo, yna bydd y cartref yn cael ei gynnig i'r teulu sy'n cyfateb agosaf â'r angen am yr ystafell wely, sydd â'r band blaenoriaeth uchaf a'r dyddiad cofrestru cynharaf.

Os yw ymgeisydd wedi gwneud cais am ddau gartref neu fwy mewn un hysbyseb, mae'n rhaid iddo nodi yn ystod y broses ymgeisio, ei flaenoriaeth os

bydd yn llwyddiannus am fwy nag un cartref. Yna, bydd y cartref na ddewisir gyntaf yn cael ei gynnig i'r ymgeisydd sydd â'r flaenoriaeth fwyaf nesaf yn unol â'r Bandiau Blaenoriaeth a restrir.

Ni fydd yr un ymgeisydd sydd wedi gwneud cais am gartref ac sydd wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais, yn gymwys i wneud cais am gartref ychwanegol a hysbysebir nes y byddant wedi dewis derbyn neu wrthod y cartref hwn.

Caiff Ymweliad Cartref ei drefnu ar gyfer pob ymgeisydd llwyddiannus y bydd cartref yn cael ei ddyrannu iddynt er mwyn dilysu manylion y cais cyn y caiff cynnig ffurfiol o lety ei wneud. Darllenir y datganiad canlynol ym mhob ymweliad:

Cyn i mi ddechrau dilysu eich cais, mae angen i mi eich gwneud yn ymwybodol bod unrhyw gynnig o lety yn amodol ar y broses ddilysu hon. Mae'n rhaid i mi eich hysbysu, os bydd y broses hon, am ba reswm bynnag, yn datgelu gwybodaeth nad oeddem ni'n ymwybodol ohoni o'r blaen, gwybodaeth sydd wedi newid neu wybodaeth sy'n sylweddol wahanol i wybodaeth a ddelir gennym ar hyn o bryd, gall hyn effeithio ar eich cais gyda HOMES4U a, gall arwain at y cynnig yn cael ei dynnu'n ôl. Dylech chi hefyd fod yn ymwybodol bod rhoi gwybodaeth anwir yn fwriadol neu'n ddi-hid, neu gadw gwybodaeth yn ôl, yn drosedd o dan Ran 6, Adran 171 Deddf Tai 1996, y gellir ei gosbi drwy ddirwy, colli unrhyw lety a ddyrannwyd i chi, neu'r ddau.

Caiff Ffurflen Ddilysu HOMES4U safonol ei llenwi, a chadarnheir dyddiad aelodaeth HOMES4U a Band Blaenoriaeth yr ymgeisydd. Ni chynhelir ymweliadau cartref pan wneir y dyfarniad ar sail achosion o ddiartrefedd statudol.

O fewn diwrnod o gwblhau'r Ymweliad Dilysu, caiff y manylion HOMES4U eu cofrestru/caiff cofnodion eu diweddarau a'u cadarnhau ar y system gyfrifiadurol, gwneir cynnig o lety i'r ymgeisydd a threfnir ymweliad â'r cartref (lle bo'n ymarferol). Os bydd yr Ymgeisydd yn derbyn y cartref, cytunir ar ddyddiad cychwyn y denantiaeth a llenwir yr holl waith papur perthnasol. Os bydd yr Ymgeisydd yn gwrthod y cartref, caiff y cartref ei gynnig i'r ymgeisydd a chanddo'r flaenoriaeth fwyaf yn unol â'r Bandiau Blaenoriaeth a restrir.

Os na dderbynnir unrhyw geisiadau ar gyfer y cartref, ystyrir ail-hysbysebu'r cartref mewn hysbyseb yn y dyfodol.

Cam 6 - Rhoddir adborth yn fisol, a gellir eu lleoli drwy ymweld â thudalennau HOMES4U ar wefan y Cyngor www.valeofglamorgan.gov.uk

Ym mhob hysbyseb a geir bob pythefnos, byddwn ni'n cyhoeddi faint o bobl a wnaeth gais am y cartrefi a hysbysebwyd yn flaenorol ac yn cyhoeddi dyddiad cofrestru aelodaeth yr ymgeiswyr llwyddiannus. Bydd hyn yn sicrhau ein bod ni'n cynnal tryloywder yn y broses ddyrannu, ac yn galluogi ymgeiswyr i bennu lle y mae ganddynt y cyfle gorau o gael eu hailgartrefu.

Bydd yr adborth yn cyhoeddi y nifer o bobl sy'n gwneud cais as gyfer cartrefi o'r blaen hysbyseb a dyddiad cofrestru o'r ymgeiswyr llwyddiannus. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn cynnal tryloywder yn y broses ddyrannu a bydd yn

galluogi ymgeiswyr i sefydlu lle mae ganddynt y cyfle gorau i cael eu hailgartrefu.

